CYNGOR

DYDD IAU, 21 MEDI 2023

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd (Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ahmed, Dilwar Ali, Ash-Edwards, Berman, Boes, Bowen-Thomson, Bradbury, Bridgeman, Brown-Reckless, Burke, Carr, Carter, Chowdhury, Cowan, Cunnah, Davies, De'Ath, Derbyshire, Driscoll, Ebrahim, Elsmore, Ferguson-Thorne, Gibson, Green, Gunter, Henshaw, Hinchey, Hopkins, Humphreys, Hunt, Jenkins, Jones, K Jones, Owen Jones, Joyce, Kaaba, Lancaster, Latif, Lent, Lewis, Lister, Littlechild, Livesy, Lloyd Jones, Mackie, McEvoy, McGarry, Melbourne, Merry, Michael, Molik, Moultrie, Naughton, Owen, Palmer, Jackie Parry, Proctor, Reid-Jones, Robinson, Robson, Sangani, Sattar, Shimmin, Simmons, Singh, Stubbs, Taylor, Huw Thomas, Thomson, Lynda Thorne, Waldron, Weaver, Wild, Williams a/ac Wong |

36 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Ali Ahmed, Goodway, Lay, Lent, Thompson a Wood.

37 : DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaed y datganiadau buddiannau canlynol yn unol â’r Cod Ymddygiad Aelodau.

| ENW | RHIF YR EITEM AGENDA | NATUR Y BUDDIANT | Y RHESWM DROS Y BUDDIANT |
|---|---|---|---|
| Y Cynghorydd Garry Hunt | Eitem 13 | Personol | Cyfarwyddwr Anweithredol - Bws Caerdydd |
| Y Cynghorydd Dan Naughton | Eitem 12 | Personol | Mater Niwroamrywiaeth |
| Y Cynghorydd Dan Naughton | Eitem 13 | Personol | Aelod o'r Teulu yn derbyn pensiwn gan Fws Caerdydd |
| Y Cynghorydd Dan Naughton | Eitem 17 – Penodi Cyfarwyddwr Gweithredol | Personol | Aelod o'r Teulu yn derbyn pensiwn gan Fws Caerdydd |
| Y Cynghorydd Dan Naughton | Eitem 8 | Personol | Aelod o’r Teulu yn cael ei gyflogi gan Gyngor Caerdydd |
| Y Cynghorydd Huw Thomas | Eitem 9 | Personol | Penodai Cyngor Caerdydd ar Gydbwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru |
| Y Cynghorydd | Eitem 13 | Personol | Cyfarwyddwr |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Calum Davies | | | Anweithredol - Bws Caerdydd |
| Y Cynghorydd Jon Shimmin | Eitem 12 | Personol | Materion Niwroamrywiaeth |
| Y Cynghorydd Owen Jones | Eitem 13 | Personol | Cyfarwyddwr Anweithredol - Bws Caerdydd |
| Y Cynghorydd Rhys Taylor | Eitem 13 | Personol | Cyfarwyddwr Anweithredol - Bws Caerdydd |
| Y Cynghorydd Joe Carter | Eitem 7 | Personol | Natur y Gyflogaeth |
| Y Cynghorydd Joe Carter | Eitem 13 | Rhagfarnus | Natur y Gyflogaeth |
| Y Cynghorydd Williams | Eitem 8 | Personol | Aelod o'r Teulu yn cael ei gyflogi gan Gyngor Caerdydd |
| Y Cynghorydd Williams | Eitem 12 | Personol | Materion Niwroamrywiaeth a Chennad ar gyfer Posau Awtistiaeth |
| Y Cynghorydd Cowan | Eitem 12 | Personol | Cennad ar gyfer Posau Awtistiaeth |
| Y Cynghorydd Keith Jones | Eitem 12 | Personol | Aelod o'r Teulu yn derbyn Cynllun Datblygu Unigol |
| Y Cynghorydd Cunnah | Eitem 7 | Personol | Natur y Gyflogaeth |
| Y Cynghorydd Cunnah | Eitem 13 | Rhagfarnus | Natur y Gyflogaeth |
| Y Cynghorydd Jamie Green | Eitem 12 | Personol | Aelod o Dyspraxia Foundation |
| Y Cynghorydd Lloyd Jones | Eitem 12 | Personol | Aelod o'r Teulu â materion niwroamrywiaeth |
| Y Cynghorydd McEvoy | Eitem 11 | Personol | Natur y gyflogaeth - gan fod y datganiadau'n ymwneud â Gwasanaethau Plant a Thai Mewn Cyflwr Gwael |
| Y Cynghorydd McEvoy | Eitem 7 | Personol | Plentyn yn mynychu meithrinfa lle nad ydynt yn cloi'r gatiau |
| Y Cynghorydd Gunter | Eitem 8 | Personol | Aelod o'r Teulu yn cael ei gyflogi gan Gyngor Caerdydd |
| Y Cynghorydd Kate Carr | Eitem 7 | Personol | Natur y Gyflogaeth |
| Y Cynghorydd Marc Palmer | Eitem 8 | Personol | Aelod o'r Teulu yn cael ei gyflogi gan Gyngor Caerdydd |
| Y Cynghorydd | Eitem 8 | Personol | Aelodau o'r Teulu yn cael |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Jane Henshaw | | | eu cyflogi gan Gyngor Caerdydd |

38 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf 2023 yn gofnod cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

39 : CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

*Stephanie Wilkins i'r Cynghorydd Goodway, yr Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu*

Yr wythnos diwethaf gwnaeth Cymdeithas Trigolion Ystum Taf, roedd hyn yn ôl ym mis Mehefin, golli ei her gyfreithiol i brosesau cynllunio Cyngor Caerdydd a'i benderfyniad i anfon carthion o fwy na 6,000 o gartrefi ym Mhlasdŵr ac i Dŵr Cymru adeiladu gorsaf bwmpio carthion ar Barc Hailey, sydd, fel y gwelwch y tu ôl i mi, eisoes wedi dechrau. Nawr bod y broses gyfreithiol wedi dod i ben a fydd y Cyngor yn dal i symud ymlaen gyda'r brydles ar y cynllun er gwaethaf gwrthwynebiad llethol iddo, ac a fydd nawr yn dechrau siarad â chymuned Ystum Taf?

*Ateb – Y Cynghorydd Huw Thomas ar ran y Cynghorydd Goodway*

I egluro, rwy'n ymateb i hyn gan fod y cwestiwn yn cyfeirio at brydles. Fel arfer byddai'r Cynghorydd Goodway yn ateb ond yn anffodus nid yw'r Cynghorydd Goodway yn iach.

Diolch am eich cwestiwn Mrs. Wilkins. Rwy'n deall yn llwyr y teimladau cryf yn y gymuned ar y mater hwn, ac rwy'n ymwybodol o'r ffaith bod y cynghorwyr lleol yn ogystal â'r AoS a'r AS wedi gwrthwynebu'r cais cynllunio; fodd bynnag, rhaid i swyddogion cynllunio ac aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio ystyried pob cais gan roi sylw dyledus i bolisïau a deddfwriaeth cynllunio lleol a chenedlaethol. Nodaf o adroddiad y Pwyllgor Cynllunio fod angen y prosiect i atgyfnerthu seilwaith y system garthffosiaeth, felly mae'n amlwg bod hwn yn ddatblygiad pwysig o ran diogelu ansawdd dŵr Afon Taf. Nodaf hefyd, mewn ymateb i'r mesurau lliniaru arfaethedig, na fynegwyd unrhyw bryderon gan arbenigwyr y Cyngor ynghylch unrhyw effaith ar yr ecoleg, ac yn wir ni fynegwyd unrhyw bryderon gormodol gan swyddogion technegol ar sail llifogydd. Atgyfnerthwyd hyn gan sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru fel ymgynghorai statudol.

Trefnwyd ymweliad safle ar gais y cynghorwyr lleol ac yn dilyn yr ymweliad gwnaeth y Pwyllgor Cynllunio gymeradwyo'r cais. Drwy gydol y broses hon, mae'r Cyngor wedi bod yn agored ac yn glir am ei rôl fel yr awdurdod cynllunio lleol ac mae bob amser wedi honni ei fod wedi gweithredu'n gywir. Yn ôl y dyfarniad diweddar, methodd yr hawliad yn erbyn y Cyngor ar bob sail, gyda llys yn canfod bod y Cyngor, gan weithredu fel Awdurdod Cynllunio Lleol, wedi gweithredu'n rhesymegol ac yn briodol.

Gan droi at fater y brydles, mae Dŵr Cymru wedi cadarnhau nad oes angen prydles gan y Cyngor ar unrhyw adeg iddo symud ymlaen â gwaith galluogi, gwaith adeiladu yn amodol ar ganiatâd cynllunio neu, yn wir, mynediad ar gyfer arolygu a chynnal a chadw parhaus. Bydd pwerau statudol perthnasol dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 yn cael eu gweithredu i ymgymryd â'r gwaith prosiect cychwynnol ac felly nid yw'r tir

ym Mharc Hailey wedi'i brydlesu i Dŵr Cymru ar hyn o bryd. Yn yr hirdymor, byddai ffurfioli mynediad i'r tir ym Mharc Hailey drwy brydles yn caniatáu i'r Cyngor gael rhywfaint o reolaeth ar agweddau fel cyfyngiadau ar fynediad i'r orsaf bwmpio at ddibenion arolygu a chynnal a chadw ar gyfer amseroedd penodol. Byddai hyn yn cynnig manteision amlwg i ddefnyddwyr y parc ac i drigolion, ac am y rheswm hwn yn unig y mae prydles wedi'i hystyried. Felly, er mwyn bod yn gwbl glir, ni fyddai'r Cyngor yn gwrthod prydles yn golygu y byddai'r gwaith yn cael ei atal rhag mynd rhagddo. Mae'n mynd rhagddo y tu ôl i chi. Nid yw'r Cyngor wedi cyhoeddi prydles, ac mae unrhyw awgrym y byddai gwrthod prydles yn atal y gwaith hwnnw yn amlwg yn anghywir. Diolch.

*Cwestiwn atodol – Stephanie Wilkins*
Rwy'n anghytuno â llawer o'r hyn y mae'r Cynghorydd Thomas newydd ei ddweud. Er mwyn egluro pwynt cywirdeb, dywedodd Dŵr Cymru fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ateb mewn gwirionedd ynglŷn â'r pedwar opsiwn gwreiddiol ar gyfer y cais cynllunio, a phan wnaethom gyflwyno Cais Gwybodaeth Amgylcheddol i Cyfoeth Naturiol Cymru, dywedon nhw nad oedden nhw wedi cael sgwrs o'r fath ac mae gennym yr holl dystiolaeth ddogfennol ysgrifenedig honno. Rydym ni lle'r ydym ni; byddai'r gymuned yn anghytuno â llawer o'r hyn a ddywedoch chi'r Cynghorydd Thomas. A wnewch chi ymrwymo i siarad â ni, rydym yn haeddu'r hawl honno, rydych chi wedi gwneud y penderfyniadau hyn ar ein rhan, a wnewch chi siarad â ni?

*Ateb – Y Cynghorydd Thomas*
Mae'r cyfeiriad at sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei gymryd yn uniongyrchol o adroddiadau'r Pwyllgor Cynllunio. Mrs Wilkins, rwyf bob amser yn hapus i siarad ag unrhyw un, ond rwyf am fod yn glir eto, gwrandewch yn ôl ar yr ateb rwyf newydd ei roi, nid wyf wedi gwneud penderfyniad mewn perthynas â Pharc Hailey ac mae'n siomedig iawn, rhaid i mi ddweud, eich bod yn parhau i fynnu bod hwn yn rhyw fath o benderfyniad gan y Cyngor. Rydych wedi cael cynghorwyr lleol, AoSau lleol ac ASau yn brwydro ar eich rhan o fewn cyfyngiadau'r system gynllunio; ac rwy'n credu bod cyfiawnhad dros gam yn ôl. Rwy'n deall lefel y pryder a'r gwrthwynebiad lleol, ond rwyf wir yn cael trafferth gyda lefel y feirniadaeth a gynhyrchir gan yr ymgyrch. Mae hwn yn ddarn cyffredin a safonol o seilwaith. Mae o leiaf pedwar parc arall yng Nghaerdydd gyda gosodiad tebyg yn ei le ac nid yw hynny'n creu unrhyw broblemau o gwbl.

Mae'n ddiddorol, wyddoch chi, oherwydd, wrth baratoi ar gyfer y cwestiwn hwn, edrychais ar fap o Barc Hailey. O'r man lle mae'r orsaf bwmpio yn cael ei gosod i ben arall Parc Hailey mae pellter o tua chilometr. Mae Cynghorwyr yn y Siambr hon sy'n byw pellter tebyg o'r brif ganolfan trin dŵr gwastraff ar gyfer Dwyrain Caerdydd i gyd a gallaf eich sicrhau nad yw'n cael unrhyw effaith ar eu bywydau o gwbl.

Mae'r ymgyrch wedi hawlio risg uwch o garthion yn mynd i'r dŵr, ond mewn gwirionedd, drwy atgyfnerthu'r system garthffosiaeth, nod y prosiect yw lleihau'r risg honno. Mae'r ymgyrch yn cyfeirio at bryderon llifogydd ond eto ni chafodd y pryderon hynny eu cadarnhau gan y Cyngor nac arbenigwyr annibynnol; ac rydych yn honni y bydd y gosodiad yn dinistrio Parc Hailey ac eto mae'r ardal ddatblygu gyfan hanner maint yr ystafell hon. Mae'n cynrychioli ardal o tua 0.2% o gyfanswm arwynebedd Parc Hailey. Mae'n amlwg nad yw'r parc dan fygythiad.

Rwy'n derbyn yn llwyr y bydd tarfu byrdymor a dyna pam y ceisiom ei leihau drwy brydles; felly mae'n siomedig eich bod chi, yn lle gweithio gyda ni ar y brydles honno,

wedi ceisio arfogi'r ffaith honno a'i defnyddio i ymosod ar y Cyngor. Yn hytrach na gweithio gydag aelodau etholedig lleol, nid yw'r ffordd y mae’r ymgyrch wedi’u trin wedi bod yn wych o gwbl byddwn yn ei awgrymu, ac yn lle parchu aelodau'r Pwyllgor Cynllunio a swyddogion sydd wedi'u rhwymo gan gyfreithiau a rheoleiddio cynllunio, rydych wedi awgrymu diffyg proffesiynoldeb a gonestrwydd ac wedi bwrw ymlaen â’r adolygiad barnwrol a ddaeth i'r casgliad eu bod wedi gweithredu'n gwbl briodol.

Rydym i gyd yn byw mewn dinas, y crynhoad dwysaf o Gymry mewn hanes. Mae angen i bob un ohonom rannu seilwaith i ddod ymlaen a byw yn y ddinas honno, boed yn orsaf pwmpio carthion neu'n llosgydd neu’n ganolfan ailgylchu gwastraff y cartref. Mae angen cyfaddawd ar bob un ohonom, a dyna sy'n galluogi bodau dynol i fyw mewn dinasoedd. Diolch yn fawr iawn, Mrs Wilkins.

*<u>Angela Weeks i’r Cynghorydd Goodway, yr Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu</u>*

Beth yw polisi Cyngor Caerdydd ar waredu tir y mae'n berchen arno ac a yw'r un polisi a meini prawf yn berthnasol i'n parciau cyhoeddus a'n mannau gwyrdd? Pa amddiffyniadau sydd ganddo ar waith, neu y bydd yn eu rhoi ar waith ar gyfer y mannau hanfodol hyn ar gyfer natur, bioamrywiaeth, hinsawdd, ein hiechyd a'n lles?

*Ateb – Y Cynghorydd Huw Thomas ar ran y Cynghorydd Goodway*

Diolch am y cwestiwn Mrs Weeks, gallaf ddweud wrthych lle datganwyd nad oes angen tir ac eiddo ar wasanaeth mwyach, cânt eu hasesu ar gyfer pob defnydd gweithredu amgen posibl. Lle nad yw unrhyw ddefnydd arall yn cael ei bennu, ystyrir prydlesu neu waredu drwy broses rheoli asedau sefydledig y Cyngor, sy'n cyd-fynd â'r trefniadau gwneud penderfyniadau a nodir yng Nghyfansoddiad y Cyngor a dirprwyo awdurdod i'r Cabinet a/neu uwch reolwyr fel y bo'n briodol. Ar gyfer unrhyw dir y cynigir ei waredu sydd wedi'i ddynodi'n fan agored cyhoeddus, yn ogystal ag ymgynghoriad ag aelodau etholedig, dilynir proses ymgynghori â'r cyhoedd benodol cyn symud ymlaen â'r gwaredu, ac sydd, gyda llaw, yn cynnwys gwaredu i brydlesu.

Caiff ein parciau a'n mannau gwyrdd eu darparu a’u hamddiffyn yn bennaf drwy'r system gynllunio. Yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol yng Nghymru, mae cynllun datblygu lleol presennol Caerdydd yn cynnwys polisïau sy'n ceisio amddiffyn ein parciau a'n mannau gwyrdd. Dim ond yn yr amgylchiadau mwyaf eithriadol y caniateir datblygiadau ar barcdir a mannau agored.

Ar wahân i'r broses gynllunio, mae'r Cyngor yn hanesyddol wedi ymrwymo i gytundebau cyfreithiol gyda'r elusen parciau a mannau gwyrdd Meysydd Chwarae Cymru i amddiffyn ardaloedd o'r fath ar draws ein dinas. Mae'r cytundebau cyfreithiol hyn, y mae 10 ohonynt ar hyn o bryd, yn amddiffyn y tir at ddibenion chwarae, chwaraeon a hamdden awyr agored, gyda chydsyniad yr ymddiriedolaeth yn ofynnol ar gyfer unrhyw warediadau a newidiadau mewn defnydd.

Y safleoedd sy’n cael eu hamddiffyn fel hyn ar hyn o bryd yw Parc y Mynydd Bychan, Cae Rec y Rhath, Parc y Morfa, Parc Llanisien, Caeau Chwarae Pontprennau, Caeau Pontcanna, Man Agored Hywel Dda yn Nhrelái, Tiroedd Hamdden Tredelerch, Gerddi Alexandra a Gerddi Grange. Mae'n rhaid i mi ymfalchïo rhywfaint yn y ffaith bod nifer o'r rheiny wedi cael eu rhoi i ymddiriedolaeth gennyf i fy hun pan oeddwn yn Aelod Cabinet. Efallai eich bod hefyd yn ymwybodol bod y Cyngor yn bwriadu amddiffyn parciau a mannau gwyrdd pellach yn y ddinas drwy ei waith parhaus gyda Meysydd Chwarae Cymru.

*Cwestiwn atodol – Angela Weeks*
Pam yr ystyriwyd nad oedd angen Parc Hailey o ran gofynion gwasanaeth mwyach ac os cynigiwyd ei waredu, pam na chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus?

*Ateb – Y Cynghorydd Huw Thomas*
Cyn belled ag y gwn i nid yw'r parc yn un nad oes ei angen o ran gofynion gweithredol. Cafodd ei gynnwys yn y cynllun eiddo blynyddol ar gyfer gwaredu, a byddai hynny wedi gofyn am ymgynghori er mwyn rhoi'r brydles uchod gyda Dŵr Cymru ar waith i reoli'r gwaith cynnal a chadw a mynediad. Ond nid ydym wedi mynd drwy'r broses honno felly ni chafwyd ymgynghoriad, oherwydd at ddibenion cynnal datblygiad a ganiateir, nid oes angen ein caniatâd ar Dŵr Cymru. Rwy'n gobeithio bod hynny'n egluro'r mater.

<u>*Reuben Kelman*</u> i'r Cynghorydd De'Ath, yr Aelod Cabinet dros Drafnidiaeth a Chynllunio Strategol
Sut mae'r Cyngor yn gweithio i ddatblygu Metro Caerdydd?

*Ateb – Y Cynghorydd De'Ath*
Mae'n amlwg bod Metro De Cymru yn cael ei ddarparu gan Trafnidiaeth Cymru. Byddwn yn gweithio'n agos gyda nhw i ddarparu'r rhannau sy'n digwydd yng Nghaerdydd, er enghraifft gorsafoedd newydd, uwchraddio gorsafoedd, tramiau ar y stryd a phethau felly. Mae llinellau craidd y Cymoedd i gyd yn cael eu hariannu, ond mae'n rhaid i rannau eraill gystadlu a gwneud cais am gyllid; er enghraifft, rwy'n siŵr eich bod yn gwybod ein bod wedi sicrhau £50 miliwn yn ddiweddar o'r Gronfa Ffyniant Bro gydag arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer yr Orsaf Ganolog i adran y Bae o Gledrau Croesi, sy'n gyffrous iawn. Felly dyna'r hyn roeddem yn ei wneud ar ein pen ni.

*Cwestiwn atodol – Ruben Kelman*
Nid trenau yn unig mohono: nid yw'r orsaf fysus ar agor o hyd, nid yw gweithredwyr yn mynd i'w defnyddio, ac nid yw'n disodli'r hen un; mae Llywodraeth Cymru wedi galw am orsaf Parc Caerdydd; mae Parc a Theithio Dwyrain Caerdydd wedi cau; mae amserlenni bysus yn cael eu lleihau; mae gwasanaethau yn cael eu tynnu'n ôl. Felly nid yw'n edrych yn dda iawn i'n rhwydwaith trafnidiaeth. Nid yw hynny'n gryfach, yn decach nac yn wyrddach i Gaerdydd, ac nid yw'n cefnogi Caerdydd i fod yn ddinas sy'n dda i blant. Ond, mae un llygedyn o obaith, trenau a thramiau newydd Trafnidiaeth Cymru sydd eisoes, fel y dywedoch, yn rhedeg ar rai llinellau yn ein dinas. Felly, hoffwn wybod, a yw'r Cyngor yn dal i ymrwymo i ddarparu Cledrau Croesi Caerdydd a dolen ddinesig yn llawn, a beth yw'r dyddiadau cwblhau targed presennol ar gyfer y prosiectau hyn?

*Ateb – Y Cynghorydd De'Ath*
Gyda'r Metro, mae'r cyfan yn unol ag uwch-gynllun; mae ffordd osgoi Heol Casnewydd yn mynd drwy broses WelTag Llywodraeth Cymru, mae hynny'n fethodoleg o ran cyflawni prosiectau trafnidiaeth; mae Heol y Crwys mewn sefyllfa dda i'w chyflawni; mae gwaith Gorsaf Butetown wedi dechrau. Felly, mae'n brosiect cyffrous iawn. Weithiau, nid wyf yn deall o ble rydych yn dod. Ar y Metro, mae cytundeb dwybleidiol mwy neu lai rhwng Llafur Cymru a Phlaid Cymru, mae yn y Cytundeb Cydweithredu ynghyd â £40 miliwn. Felly gyda rhai o'r pethau hyn, rydym ar yr un dudalen â Phlaid. Ychydig fisoedd yn ôl roeddech yn dweud fy mod yn wrth-

geir ac yn beirniadu lonydd beicio. Wel, clywais Delyth Jewell yn siarad yn dda iawn ac mae hi fwy neu lai ar yr un dudalen â'r hyn rydym yn ei wneud yng Nghaerdydd.

40 : DEISEBAU

Derbyniwyd y deisebau canlynol.

| Cyflwynwyd gan | Nifer y llofnodion perthnasol | Natur y ddeiseb |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Livesy | 204 | Gofyn am adfer y gwasanaeth bws rhwng canol dinas Caerdydd a Sain Ffagan |
| Y Cynghorydd Stubbs | 63 | Gofyn am wasanaeth bws uniongyrchol am ddim i ddisgyblion y Sblot, Tremorfa a Lawnt Pengam i Ysgol Uwchradd Bro Edern |

41 : CYHOEDDIADAU'R ARGLWYDD FAER

Rhoddodd yr Arglwydd Faer amlinelliad o'i hymrwymiadau diweddar, gan gynnwys mynychu nifer o ddigwyddiadau:

- Digwyddiad cau gorsaf Sain Tathan
- Ymweld â HMS Cambria
- Digwyddiad Eid a drefnwyd gan Siambr Fasnach Fangladeshaidd Cymru
- Ymweld â Sanatan Dharma Mandal
- Digwyddiad Blodyn am Byth Hardd gan Hobis y Ddinas yn y castell
- Ratha Yatra gan Tŷ Krishna Cymru ac yna Digwyddiad Balchder Glitter
- Gwasanaeth Diolchgarwch Canmlwyddiant Sefydliad y Merched
- Diwrnod codi fflag y Llynges Fasnachol
- Lansio canolfan arweinyddiaeth mewn addysg ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd
- Saliwt gynnau brenhinol ar gyfer Diwrnod Esgyn i'r Orsedd
- Cyfarfod â chennad Gwlad y Thai
- Cyfarfod â dirprwyaeth o Nepal
- Perfformiad côr Forget Me Not
- Sgwrs am rôl yr Arglwydd Faer yng Nghyfeillion Rhydypennau
- Noson wobrwyo Sgowtiaid yr Arglwydd Faer

Ychwanegodd yr Arglwydd Faer ei bod wedi cymryd seibiant gyda'i theulu yn ddiweddar a diolchodd i'r Dirprwy Arglwydd Faer, y Cynghorydd Henshaw, am gymryd ei lle tra roedd hi i ffwrdd, gan gynnwys mynd i ddigwyddiad enwi noddwr HMS Caerdydd, Katherine Jenkins, a digwyddiad codi baner ar gyfer Diwrnod Annibyniaeth India.

Bore te a choffi yn y Plasty ar 19 Hydref, a drefnwyd gan y cyn-Arglwyddi Maer Margaret Jones a Freda Salway, tra roedd Cymdeithas Merched Bangladeshaidd yn trefnu digwyddiad codi arian ar 26 Tachwedd. Roedd y ddau ar gyfer ei helusen ddewisol UCAN Productions, a oedd yn bwriadu cynnal digwyddiad perfformiad mawr yn arddangos eu doniau ar 2 Rhagfyr. Diolchodd i'r 14 o bobl oedd yn rhedeg Hanner Marathon Caerdydd i gefnogi UCAN Productions, gan gynnwys y Cynghorwyr Carter, Livesy a Stubbs, a'r cyn-gynghorydd Joe Boyle, oedd hefyd yn gwneud hanner marathon Llundain.

Roedd yr Arglwydd Faer a'r Arglwydd Faeres flaenorol, y Cynghorydd Graham Hinchey a'i wraig Anne, wedi cau eu hymgyrch codi arian ar gyfer Cŵn Tywys Cymru yn ddiweddar ar ôl codi £85,000 yn ystod eu blwyddyn yn y swydd.

Talodd yr Arglwydd Faer deyrnged hefyd a chynigiodd gydymdeimlad i deuluoedd tri chyn-gynghorydd a fu farw'n ddiweddar: Y Cynghorwyr Cathy Pearcy a Patricia Burfoot.

42 : ADRODDIAD LLES BLYNYDDOL 2022/2023

Yn dilyn cynnig y Cabinet ar 13 Gorffennaf 2023, gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo Adroddiad Lles Blynyddol 2022/23, a oedd yn darparu asesiad o'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni blaenoriaethau'r weinyddiaeth fel y nodwyd yng Nghynllun Corfforaethol 2022-25.

Gwnaeth yr adroddiad hefyd alluogi'r Cyngor i gyflawni nifer o rwymedigaethau statudol, gan gynnwys hunanasesiad o berfformiad yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a chyhoeddi Adroddiad Lles Blynyddol statudol yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Cynigiwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Thomas ac fe’i heiliwyd gan y Cynghorydd Merry.

Galwodd yr Arglwydd Faer am bleidlais ar yr argymhellion yn yr adroddiad.

Cefnogi (55)
Y Cynghorwyr Saleh Ahmed, Ali, Ash-Edwards, Berman, Boes, Bowen-Thomson, Bradbury, Bridgeman, Burke, Carr, Carter, Chowdhury, Cunnah, De’Ath, Derbyshire, Elsmore, Ferguson-Thorne, Gibson, Green, Gunter, Hinchey, Hopkins, Humphreys, Hunt, Huw Jenkins, Lloyd Jones, Jackie Jones, Keith Jones, Owen Jones, Joyce, Lewis, Lister, Livesy, Mackie, McGarry, Merry, Michael, Moultrie, Naughton, Palmer, Parry, Proctor, Robinson, Sangani, Sattar, Shimmin, Simmons, Singh, Stubbs, Taylor, Thomas, Thorne, Waldron, Weaver a Wild

Yn erbyn (2)

Y Cynghorwyr Ebrahim a McEvoy

Dal pleidlais yn ôl (9):
Y Cynghorwyr Cowan, Davies, Driscoll, Lancaster, Littlechild, Melbourne, Reid-Jones, Robson, Williams

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Cyngor:

Gymeradwyo Adroddiad Lles Statudol Blynyddol 2022/23

43 : CYLLIDEB 2024/25 A'R CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG: ADRODDIAD DIWEDDARU

Rhoddwyd diweddariad i'r Cyngor ar y gwaith o baratoi’r gyllideb ar gyfer 2024/25, gan gynnwys yr amcangyfrif diweddaraf o fwlch cyllideb 2024/25 a diweddariad mewn perthynas â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r Rhaglen Gyfalaf. Amlinellodd yr adroddiad amserlen y gyllideb a fyddai’n cael ei dilyn i gyflwyno Cyllideb 2024/25 i'r Cyngor ym mis Chwefror/Mawrth 2024 a rhoddodd ddiweddariad mewn perthynas â gwydnwch ariannol y Cyngor, a gofynnwyd i'r Cyngor gytuno ar Fframwaith Cynhyrchu Incwm yn amlinellu dull y Cyngor o bennu incwm o werthiannau, ffioedd a thaliadau ar gyfer 2024/25.

Cynigiwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Weaver ac fe’i heiliwyd gan y Cynghorydd Thomas.

Cynigiodd y Cynghorydd Carter ddiwygiad i'r adroddiad.

“I'w fewnosod ar ddiwedd Cynnig y Cabinet:

*"Mae'r Cyngor yn gofyn ymhellach i adroddiad gael ei gyflwyno i'w ystyried cyn diwedd y flwyddyn galendr sy'n darparu dadansoddiad manylach o effaith bosibl chwyddiant uchel a chyfraddau llog uchel parhaus ar gyllideb refeniw a rhaglen gyfalaf y Cyngor. Dylai hyn ystyried fforddiadwyedd y rhaglen gyfalaf (gan gynnwys effaith cyfraniad cyfalaf arfaethedig y Cyngor o £27.3 miliwn i ddatblygu'r arena dan do newydd arfaethedig ar swm y cyllid cyfalaf a refeniw sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau craidd pwysig), y risgiau i gyllidebau refeniw yn y dyfodol os yw chwyddiant, costau gweithredol a/neu ddyfarniadau cyflog yn uwch na'r rhagdybiaethau cynllunio presennol, a'r risgiau a berir gan ddirywiad economaidd*." "

Cafodd y diwygiad ei eilio’n ffurfiol gan y Cynghorydd Berman.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar yr adroddiad a’r diwygiad.

Ymatebodd y Cynghorydd Weaver i'r drafodaeth a chadarnhaodd na dderbyniwyd y diwygiad.

Galwodd yr Arglwydd Faer am bleidlais ar y diwygiad.

Cefnogi (22)

Y Cynghorwyr Berman, Brown-Reckless, Carter, Cowan, Davies, Driscoll, Ebrahim, Gibson, Hopkins, Lancaster, Littlechild, Livesy, McEvoy, Melbourne, Naughton, Owen, Reid-Jones, Robson, Shimmin, Taylor, Waldron a Williams

Yn erbyn (45)
Y Cynghorwyr Saleh Ahmed, Ali, Ash-Edwards, Bowen-Thomson, Bradbury, Bridgeman, Burke, Carr, Chowdhury, Cunnah, De'Ath, Elsmore, Ferguson-Thorne, Greene, Gunter, Hinchey, Humphreys, Hunt, Huw Jenkins, Lloyd Jones, Jackie Jones, Keith Jones, Owen Jones, Joyce, Kaaba, Lewis, Lister, Mackie, McGarry, Merry, Michael, Moultrie, Palmer, Parry, Proctor, Robinson, Sangani, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Thomas, Thorne, Weaver a Wild

Ni wnaeth unrhyw un ddal pleidlais yn ôl.

COLLWYD y bleidlais ar y diwygiad.

Galwodd yr Arglwydd Faer am bleidlais ar yr argymhellion yn yr adroddiad.

Cefnogi (48)
Y Cynghorwyr Saleh Ahmed, Ali, Ash-Edwards, Bowen-Thomson, Bradbury, Bridgeman, Burke, Carr, Chowdhury, Cunnah, De'Ath, Ebrahim, Elsmore, Ferguson-Thorne, Gibson, Greene, Gunter, Hinchey, Humphreys, Hunt, Huw Jenkins, Lloyd Jones, Jackie Jones, Keith Jones, Owen Jones, Joyce, Kaaba, Lewis, Lister, Livesy, Mackie, McGarry, Merry, Michael, Moultrie, Palmer, Proctor, Robinson, Sangani, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Thomas, Thorne, Weaver a Wild

Yn erbyn (1)
Y Cynghorydd McEvoy

Dal pleidlais yn ôl (18)
Y Cynghorwyr Berman, Brown-Reckless, Carter, Cowan, Davies, Driscoll, Hopkins, Lancaster, Littlechild, Melbourne, Naughton, Owen, Reid-Jones, Robson, Shimmin, Taylor, Waldron a Williams

DERBYNIWYD y bleidlais ar yr adroddiad.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Cyngor:

I gytuno i fabwysiadu Fframwaith Amserlen y Gyllideb a nodwyd yn Atodiad 3 ac y caiff y gwaith a amlinellwyd ei symud ymlaen gyda'r nod o lywio'r gwaith o baratoi'r gyllideb.

## 44 : CYDBWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL DE-DDWYRAIN CYMRU - TREFNIADAU CRAFFU A SAFONAU

Gofynnwyd i'r Cyngor ystyried cais Cydbwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru (CBCDdC) i Bwyllgor Safonau a Moeseg Caerdydd gael ei ddefnyddio fel Is-bwyllgor Safonau ar gyfer CBCDdC ar sail gychwynnol, tan fod CBCDdC yn gwbl weithredol ac yn barod i sefydlu ei Is-bwyllgor Safonau ei hun, a'r cynnig bod Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu (CBTCh) presennol Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth

Caerdydd yn cael ei benodi i gyflawni swyddogaethau craffu’r awdurdod mewn perthynas â CBCDdC.

Cynigiwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Thomas ac fe’i heiliwyd gan y Cynghorydd Lancaster.
Galwodd yr Arglwydd Faer am bleidlais ar yr argymhellion yn yr adroddiad ac ar y Daflen Diwygiadau.

Cefnogi (63)
Y Cynghorwyr Saleh Ahmed, Ali, Ash-Edwards, Berman, Boes, Bowen-Thomson, Bradbury, Bridgeman, Brown-Reckless, Burke, Carr, Carter, Chowdhury, Cowan, Cunnah, Davies, De’Ath, Driscoll, Ebrahim, Elsmore, Ferguson-Thorne, Green, Gunter, Hopkins, Humphreys, Hunt, Huw Jenkins, Lloyd Jones, Jackie Jones, Keith Jones, Owen Jones, Joyce, Kaaba, Lancaster, Lewis, Lister, Littlechild, Mackie, McGarry, Melbourne, Merry, Michael, Moultrie, Naughton, Owen, Palmer, Parry, Proctor, Reid-Jones, Robinson, Robson, Sangani, Sattar, Shimmin, Singh, Stubbs, Taylor, Thomas, Thorne, Waldron, Weaver, Wild a Williams

Nid oedd unrhyw bleidleisiau yn erbyn yr argymhellion ac ni wnaeth unrhyw un ddal pleidlais yn ôl.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Cyngor i wneud y canlynol:

1. Yn amodol ar gwblhau Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn unol ag argymhelliad 2 isod, cytuno i'r cais gan CBCDdC i ddefnyddio Pwyllgor Safonau a Moeseg Caerdydd i gyflawni swyddogaethau statudol Is-bwyllgor Safonau CBCDdC, ac i'r perwyl hwn,:

   i Derbyn dirprwyaeth o swyddogaethau CBCDdC dan adran 53(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000;
   ii Dirprwyo cyfrifoldeb am swyddogaethau statudol is-bwyllgor safonau'r CBCDdC i'r Pwyllgor Safonau a Moeseg;
   iii Diwygio cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau a Moeseg fel y dangoswyd ym mharagraff 17 yr adroddiad.

2. Yn amodol ar gymeradwyo argymhelliad 1, awdurdodi'r Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd, i gwblhau Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng Cyngor Caerdydd a CBCDdC ar delerau addas, gan gynnwys yn benodol, amod y bydd unrhyw gostau a rhwymedigaethau ychwanegol yr eir iddynt gan Gyngor Caerdydd dan y trefniant hwn yn cael eu talu gan CBCDdC a gyda darpariaeth ar gyfer adolygu ar ôl 12 mis a therfynu'r trefniadau.

3. Penodi CBTCh presennol Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd fel pwyllgor craffu'r awdurdod mewn perthynas â holl swyddogaethau CBCDdC, a chytuno ar ei gylch gorchwyl cychwynnol fel y nodwyd yn Atodiad A, yn amodol ar gytundeb gan bob un o awdurdodau cyfansoddol eraill CBCDdC.

4. Nodi'r sylwadau, yr arsylwadau a'r argymhellion mewn perthynas â'r cynigion craffu a nodwyd yng Nghadeirydd y Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant a Chadeirydd y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol dyddiedig 20

Medi 2023 (Atodiad B y Daflen Diwygiadau) a chytuno i gyflwyno'r tri argymhelliad a nodwyd yno i'r CBTCh i'w hystyried

45 : PENODI CYFARWYDDWR LLYWODRAETHU A GWASANAETHAU CYFREITHIOL A SWYDDOG MONITRO

Hysbyswyd y Cyngor yn ffurfiol fod swydd y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol, Swyddog Monitro dynodedig y Cyngor, yn wag yn dilyn ymddiswyddiad deiliad presennol y swydd; a gofynnwyd iddo roi trefniadau ar waith i sicrhau bod gan y Cyngor adnoddau uwch reoli digonol i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol.

Cynigiwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Thomas ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Merry.

Cynigiodd y Cynghorydd Berman ddiwygiad i'r adroddiad:

"Ar ôl "*Bod y Cyngor*", dileu argymhellion 1-5 a rhoi'r canlynol yn eu lle:

*"1. yn nodi ymadawiad arfaethedig y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol sef Swyddog Monitro dynodedig y Cyngor hefyd;*
*2. yn nodi, fel y nodwyd ym mharagraff 11, y bydd angen i'r Cyngor ddynodi Swyddog Monitro Dros Dro am gyfnod;"*

Ail-rifo argymhellion 6 a 7 fel argymhellion 3 a 4, yn y drefn honno.

Ychwanegu'r awgrymiadau newydd canlynol ar y diwedd:

*"5. gan gydnabod y cyfyngiadau ariannol presennol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu, yn awdurdodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau i ddefnyddio ymadawiad arfaethedig y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol fel cyfle i ystyried y potensial ar gyfer ailstrwythuro uwch dîm rheoli'r Cyngor a allai gynhyrchu arbedion refeniw yn y dyfodol ac yna llunio opsiynau ar gyfer ailstrwythuro o'r fath i'w cyflwyno yng nghyfarfod y Cyngor yn y dyfodol i'r Aelodau eu hystyried."* "

Cafodd y diwygiad ei eilio'n ffurfiol gan y Cynghorydd Carter.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar yr adroddiad a'r diwygiad.

Ymatebodd y Cynghorydd Thomas i'r drafodaeth a chadarnhaodd na dderbyniwyd y diwygiad.

Galwodd yr Arglwydd Faer am bleidlais ar y diwygiad.

Cefnogi (20)
Y Cynghorwyr Berman, Carter, Cowan, Davies, Driscoll, Gibson, Hopkins, Lancaster, Littlechild, Livesy, McEvoy, Melbourne, Naughton, Owen, Reid-Jones, Robson, Shimmin, Taylor, Waldron a Williams

Yn erbyn (43)

Y Cynghorwyr Saleh Ahmed, Ali, Ash-Edwards, Bowen-Thomson, Bradbury, Bridgeman, Burke, Carr, Chowdhury, Cunnah, De'Ath, Ebrahim, Elsmore, Ferguson-Thorne, Greene, Gunter, Humphreys, Hunt, Huw Jenkins, Lloyd Jones, Keith Jones, Owen Jones, Joyce, Kaaba, Lewis, Lister, Mackie, McGarry, Michael, Moultrie, Palmer, Parry, Proctor, Robinson, Sangani, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Thomas, Thorne, Weaver a Wild

COLLWYD y bleidlais ar y diwygiad.

Galwodd yr Arglwydd Faer am bleidlais ar yr argymhellion yn yr adroddiad.

Cefnogi (58)
Y Cynghorwyr Saleh Ahmed, Ali, Ash-Edwards, Boes, Bowen-Thomson, Bradbury, Bridgeman, Brown-Reckless, Burke, Carr, Chowdhury, Cowan, Cunnah, Davies, De'Ath, Driscoll, Ebrahim, Elsmore, Ferguson-Thorne, Gibson, Green, Gunter, Humphreys, Hunt, Huw Jenkins, Lloyd Jones, Keith Jones, Owen Jones, Joyce, Kaaba, Lancaster, Lewis, Lister, Littlechild, Livesy, Mackie, McGarry, Melbourne, Merry, Michael, Moultrie, Owen, Palmer, Parry, Proctor, Reid-Jones, Robinson, Robson, Sangani, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Thomas, Thorne, Weaver, Wild a Williams

Yn erbyn (0)

Dal pleidlais yn ôl (8):
Y Cynghorwyr Berman, Carter, Hopkins, McEvoy, Naughton, Shimmin, Taylor a Waldron

DERBYNIWYD y bleidlais ar yr adroddiad.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Cyngor i wneud y canlynol:

1. Nodi y bydd swydd y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol yn wag yn fuan, a chymeradwyo ymarfer recriwtio a dethol i lenwi'r swydd;

2. Cytuno ar ddim newidiadau i'r datganiad o ddyletswyddau, telerau ac amodau, gan gynnwys taliadau cydnabyddiaeth ar gyfer y swydd, fel y penderfynwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor Amodau Cyflogaeth a'r Cyngor ac y cyfeiriwyd atynt ym mharagraffau 6 a 9 yr adroddiad hwn;

3. Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau, i roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer hysbysebu'r swydd yn gyhoeddus;

4. Nodi y bydd Pwyllgor Penodiadau yn cael ei gynnull i wneud penodiad addas dan ei gylch gorchwyl cymeradwy;

5. Derbyn adroddiad/adroddiadau pellach i:
    a) Nodi penodiad y Pwyllgor Penodiadau o Gyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol newydd ac i'r Cyngor ddynodi'r penodai newydd fel Swyddog Monitro'r Cyngor yn unol ag adran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;

b) Cytuno ar y trefniadau sydd i'w gwneud ar gyfer, a dynodiad, Swyddog Monitro Dros Dro, i gyflawni swyddogaethau statudol y rôl hon hyd nes y bydd y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro newydd yn ymgymryd â'i swydd;

6. Awdurdodi'r Swyddog Monitro i ddiwygio cyfeiriadau Erthygl 11 y Cyfansoddiad at y term 'cyflogai' i ddweud 'swyddog' yn lle, er mwyn dileu'r anghysondeb o fewn y Cyfansoddiad, fel yr eglurwyd ym mharagraff 17 yr adroddiad;

7. Aseinio'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau i gynorthwyo i gyflawni dyletswyddau'r Swyddog Canlyniadau yn ystod ei absenoldeb, yn effeithiol o'r dyddiad y mae'r Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol (fel Dirprwy Swyddog Canlyniadau) yn gadael cyflogaeth y Cyngor.

46 : DATGANIADAU'R CABINET

**Datganiad yr Arweinydd**
Ymatebodd yr Arweinydd i gwestiynau mewn perthynas â’r canlynol:

- Cerflun Torwyr Cod Byd Rygbi Cymru
- Lonydd beicio
- Adfywio Llanrhymni
- Tafwyl

**Datganiad ar Addysg**
Ymatebodd y Dirprwy Arweinydd, y Cynghorydd Merry i gwestiynau mewn perthynas â’r canlynol:

- Ysgolion sy’n Parchu Hawliau
- Beth Nesaf?
- Arolygiadau Estyn
- Ymweliadau Ysgol
- Bwyd a Hwyl
- Academi’r Gofod Caerdydd

**Datganiad ar Wasanaethau Cymdeithasol**
Ymatebodd y Cynghorydd Mackie i gwestiynau mewn perthynas â’r canlynol:

- Grwpiau Cymunedol

Ymatebodd y Cynghorydd Lister i gwestiynau mewn perthynas â’r canlynol:

- Darpariaeth Gofal Gwyliau'r Haf:
- Mae Fy Mhethau i’n Bwysig

**Datganiad ar y Newid yn yr Hinsawdd**
Ymatebodd y Cynghorydd Wild i gwestiynau mewn perthynas â’r canlynol:

- Cerbydau trydan a seilwaith gwefru cerbydau trydan
- Biniau newydd
- Casgliadau biniau

**Datganiad ar Ddiwylliant, Parciau a Digwyddiadau**

Ymatebodd y Cynghorydd Burke i gwestiynau mewn perthynas â’r canlynol:

- Gwobrau’r Faner Werdd
- Ardaloedd chwarae i blant

**Datganiad ar Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad**
Ymatebodd y Cynghorydd Weaver i gwestiynau mewn perthynas â’r canlynol:

- Ap Caerdydd

**Datganiad ar Fuddsoddi a Datblygu**

Ymatebodd yr Arweinydd, ar ran y Cynghorydd Goodway, i gwestiynau mewn perthynas â’r canlynol:

- Canolfan y Ddraig Goch
- Uwchgynllun Glanfa'r Iwerydd

**Datganiad ar Dai a Chymunedau**
Ymatebodd y Cynghorydd Thorne i gwestiynau mewn perthynas â’r canlynol:

- Llety lloches
- Teuluoedd mewn gwestai

**Datganiad ar Drechu Tlodi, Cydraddoldeb ac Iechyd y Cyhoedd**
Ymatebodd y Cynghorydd Bradbury i gwestiynau mewn perthynas â’r canlynol:

- Grwpiau cymorth cymunedol
- Partneriaeth â Sky

Ymatebodd y Cynghorydd Sangani i gwestiynau mewn perthynas â’r canlynol:

- Brechu Covid-19

**Datganiad ar Drafnidiaeth a Chynllunio Strategol**
Ymatebodd y Cynghorydd De’Ath i gwestiynau mewn perthynas â’r canlynol:

- Teithio Llesol
- Arwynebu Priffyrdd
- Teithio Llesol i Ysgolion

Strydoedd Ysgol

47 : HYSBYSIAD O GYNNIG -1

Nododd yr Arglwydd Faer fod Hysbysiad o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Green ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Robinson wedi dod i law i'w ystyried.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Green i gyflwyno’r cynnig fel a ganlyn:

“Mae'r Cyngor hwn yn nodi bod tua 1 o bob 7 o bobl yn y DU yn niwroamrywiol, sy'n golygu eu bod yn profi'r byd yn fwy unigryw nag eraill. Mae niwroamrywiaeth yn gysylltiedig ag ystod o gyflyrau a nodweddion gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd, Cyflyrau ar y Sbectrwm Awtistig, Dyslecsia, Anhwylder Iaith Datblygiadol, Dyspracsia a Dyscalcwlia.

Mae pobl sydd â nodweddion a chyflyrau niwroamrywiol yn wynebu amrywiaeth o heriau ar draws ein cymdeithas, gan gynnwys dod o hyd i gyflogaeth, tebygolrwydd

uwch o ddiagnosau iechyd meddwl, a thrafferthion cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, mae niwroamrywiaeth yn dod â llawer o gryfderau a phatrymau meddwl unigryw sydd o fudd i'n cymunedau a'n gweithleoedd.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi ymhellach yr enghreifftiau o sut mae awdurdodau lleol eraill yn gweithio i ddod yn fwy niwroamrywiol gyfeillgar. Mae hyn yn cynnwys Strategaeth Awtistiaeth Manceinion Fwyaf a menter 'Every Voice Counts' Cyngor Caerlŷr.

Mae'r Cyngor hwn yn credu bod rhaid i ni gael gwared â'r rhwystrau sy'n atal y rhai sydd â nodweddion a chyflyrau niwroamrywiol rhag cymryd rhan mewn cymdeithas ac i weithio ar draws ein dinas i wneud Caerdydd yn fwy niwroamrywiol gyfeillgar.

O'r herwydd, mae'r Cyngor hwn yn penderfynu:

> Gofyn i'r Cabinet lunio strategaeth niwroamrywiaeth sy'n sicrhau bod ein gwasanaethau'n nodi ac yn diwallu anghenion y rhai sydd â niwroamrywiaeth ac i wneud hyn o fewn y 12 mis nesaf. Dylai hyn gynnwys ceisio darparu hyfforddiant ar niwroamrywiaeth yn fewnol ar gyfer cyflogeion a phartneriaid rhanddeiliaid, fel llywodraethwyr ysgol, yn ogystal â phawb sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau cyhoeddus i bobl Caerdydd drwy'r Cyngor fel y gallant nodi a diwallu anghenion pobl â niwroamrywiaeth.
>
> Hyrwyddo derbyniad a dealltwriaeth o niwroamrywiaeth ledled Caerdydd. Er enghraifft, drwy ddathlu ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth fel Wythnos Dathlu Niwroamrywiaeth, Wythnos Derbyn Awtistiaeth y Byd, Mis Ymwybyddiaeth ADCG ac Wythnos Ymwybyddiaeth Dyspracsia.
>
> Ymchwilio i ddarparu hyfforddiant i'r holl Gynghorwyr ar niwroamrywiaeth i gynorthwyo yn eu gwaith achos wrth gydnabod effaith gynyddol cyflyrau niwroamrywiol ar y materion y maent yn ymdrin â hwy ar ran etholwyr.
>
> Sicrhau bod niwroamrywiaeth yn cael ei ystyried o fewn nodau a strategaeth lles y Cyngor i adeiladu Caerdydd Gryfach, Decach, Wyrddach erbyn yr adeg y bydd y cynllun corfforaethol nesaf yn cael ei gyhoeddi.
>
> Annog y rhai sy'n niwroamrywiol i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus, fel rhedeg i fod yn gynghorydd a dod yn llywodraethwr ysgol.
>
> Adolygu a gweithredu addasiadau rhesymol ar gyfer ein haelodau etholedig, er mwyn sicrhau bod rôl y Cynghorydd yn hygyrch i bobl â nodweddion a chyflyrau niwroamrywiol ac y gellir defnyddio sgiliau a thalentau pawb er budd dinasyddion Caerdydd."

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar y cynnig.

Galwodd yr Arglwydd Faer am bleidlais ar y cynnig.

Cefnogi (69)
Y Cynghorwyr Saleh Ahmed, Ali, Ash-Edwards, Berman, Boes, Bowen-Thomson, Bradbury, Bridgeman, Brown-Reckless, Burke, Carr, Carter, Chowdhury, Cowan, Cunnah, Davies, De'Ath, Derbyshire, Driscoll, Ebrahim, Elsmore, Ferguson-Thorne,

Gibson, Green, Gunter, Henshaw, Hinchey, Hopkins, Humphreys, Hunt, Jackie Jones, Keith Jones, Owen Jones, Joyce, Kaaba, Lancaster, Latif, Lewis, Lister, Littlechild, Livesy, Mackie, McEvoy, McGarry, Melbourne, Merry, Michael, Moultrie, Naughton, Owen, Palmer, Parry, Proctor, Reid-Jones, Robinson, Robson, Sattar, Shimmin, Simmons, Singh, Stubbs, Taylor, Thomas, Thorne, Waldron, Weaver, Wild, Williams a Wong.

Nid oedd unrhyw bleidleisiau yn erbyn ac ni wnaeth unrhyw un ddal pleidlais yn ôl.

DERBYNIWYD y bleidlais ar y cynnig

48 : HYSBYSIAD O GYNNIG - 2

Nododd yr Arglwydd Faer fod Hysbysiad o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Reid-Jones ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Owen wedi dod i law i'w ystyried.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Reid-Jones i gyflwyno'r cynnig fel a ganlyn:

“Mae'r Cyngor yn nodi'r canlynol:

1. Mae Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau Llywodraeth Cymru, a gyflwynwyd i bontio'r bwlch rhwng incwm a gwariant gweithredwyr bysiau, i fod i ddod i ben ar 24 Gorffennaf 2023.
2. Nid yw cyfran Caerdydd o'r £46m o gyllid i helpu gwasanaethau bysiau am weddill y flwyddyn ariannol hon yn ddigonol i gynnal gwasanaethau presennol ar draws y ddinas, yn enwedig y gwasanaethau hynny y mae mawr eu hangen yn y maestrefi.
3. Mae gwasanaethau bysiau ledled Caerdydd eisoes yn cael eu torri gyda llawer o rai eraill yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd.
4. Derbyniodd Bws Caerdydd, sy'n eiddo i Gyngor Caerdydd, £5.6m o'r Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau a £1.6m o'r Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau yn 2021/22 (y cyfrifon cyhoeddedig diweddaraf).

Mae'r Cyngor yn credu:

1. Mae gwasanaethau bysiau rheolaidd a dibynadwy yn nodwedd allweddol o brifddinas ac maent yn hanfodol i leihau'r defnydd o geir, allyriadau carbon a thagfeydd ffyrdd a byddant yn helpu canol y ddinas i ffynnu.
2. Dylid blaenoriaethu gwasanaethau bysiau dros ddulliau teithio llesol eraill. Ar wahân i drenau sydd y tu hwnt i'n rheolaeth, bysiau yw'r unig ddull hygyrch, fforddiadwy a diogel o deithio sydd ar gael i **HOLL** drigolion Caerdydd.
3. Byddai cael gwared â gwasanaethau bysiau yn y maestrefi yn arwain at gymunedau, yn enwedig pobl hŷn, yn cael eu hynysu oddi wrth wasanaethau hanfodol.

Rydym yn galw ar y Cabinet i:

1. O ystyried cyfyngiadau adnoddau, sicrhau bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i wasanaethau bysiau fel yr unig ddull cost isel a hygyrch o deithio

o amgylch ein Dinas.

2. Adolygu rôl lonydd beicio mewn tagfeydd ffyrdd cynyddol ac ymgynghori â chwmnïau bysiau yng Nghaerdydd ynghylch effaith lonydd beicio newydd arfaethedig ar wasanaethau bysiau.
3. Lobïo Llywodraeth Cymru i gynnal a gwella'r lefelau presennol o gyllid bysiau nes bod model masnachfreinio i'w ddeddfu ar waith.
4. Atal yr holl waith ar gynigion ar gyfer codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd / am dagfeydd a chanolbwyntio ymdrechion ar greu gwasanaethau trafnidiaeth hyfyw, cynhwysol, effeithlon ac effeithiol i bobl Caerdydd ac i achub canol y ddinas sy'n cael trafferthion. Rhaid iddynt fod yn hygyrch, yn fforddiadwy ac yn ddiogel i'w holl ddinasyddion, a chefnogi strategaeth Dinas 15 munud y Cyngor.
5. Cynnwys cyllid a gallu gweithredol Bws Caerdydd yn ei asesiadau effaith polisi."

Derbyniwyd y diwygiad cyntaf i'r cynnig oddi wrth y Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol. Galwodd yr Arglwydd Faer ar y Cynghorydd Berman i gynnig y diwygiad cyntaf fel a ganlyn:

"Mae'r Cyngor yn nodi'r canlynol:

1. Mae Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau Llywodraeth Cymru, a gyflwynwyd i bontio'r bwlch rhwng incwm a gwariant gweithredwyr bysiau, i fod i ddod i ben ar 24 Gorffennaf 2023.
2. Nid yw cyfran Caerdydd o'r £46m o gyllid i helpu gwasanaethau bysiau am weddill y flwyddyn ariannol hon yn ddigonol i gynnal gwasanaethau presennol ar draws y ddinas, yn enwedig y gwasanaethau hynny y mae mawr eu hangen yn y maestrefi.
3. Mae gwasanaethau bysiau ledled Caerdydd eisoes yn cael eu torri gyda llawer o rai eraill yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd.
4. Derbyniodd Bws Caerdydd, sy'n eiddo i Gyngor Caerdydd, £5.6m o'r Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau a £1.6m o'r Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau yn 2021/22 (y cyfrifon cyhoeddedig diweddaraf).

Mae'r Cyngor yn credu:

1. Mae gwasanaethau bysiau rheolaidd a dibynadwy yn nodwedd allweddol o brifddinas ac maent yn hanfodol i leihau'r defnydd o geir, allyriadau carbon a thagfeydd ffyrdd a byddant yn helpu canol y ddinas i ffynnu.
2. Dylid blaenoriaethu gwasanaethau bysiau dros ddulliau teithio sy'n llai hygyrch, fforddiadwy, ecogyfeillgar a diogel, neu na ellir eu darparu i holl drigolion Caerdydd.
3. Byddai cael gwared â gwasanaethau bysiau yn y maestrefi yn arwain at gymunedau, yn enwedig pobl hŷn, yn cael eu hynysu oddi wrth wasanaethau hanfodol.

Rydym yn galw ar y Cabinet i:

1. O ystyried cyfyngiadau adnoddau, sicrhau bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i wasanaethau bysiau fel yr unig ddull cost isel o deithio o amgylch ein Dinas sy'n hygyrch i'r rhan fwyaf o bobl.

2. Adolygu rôl lonydd beicio mewn tagfeydd ffyrdd cynyddol ac ymgynghori â chwmnïau bysiau yng Nghaerdydd ynghylch effaith lonydd beicio newydd arfaethedig ar wasanaethau bysiau i sicrhau strategaeth drafnidiaeth gytbwys sy'n hyrwyddo newid moddol gan gydnabod yr angen i'w gwneud yn haws newid i deithio llesol i'r rhai sy'n gallu, yn ogystal â chydnabod yr angen i gynyddu mynediad at wasanaethau bysiau dibynadwy y gall pawb eu defnyddio.
3. Lobïo Llywodraeth Cymru i gynnal a gwella'r lefelau presennol o gyllid bysiau nes bod model masnachfreinio i'w ddeddfu ar waith.
4. Canolbwyntio ymdrechion ar greu gwasanaethau trafnidiaeth hyfyw, cynhwysol, effeithlon ac effeithiol i bobl Caerdydd sy'n galluogi teithiau i'r man lle mae pobl eisiau mynd, nid canol y ddinas yn unig. Rhaid iddynt fod yn hygyrch, yn fforddiadwy ac yn ddiogel i'w holl ddinasyddion, a chefnogi strategaeth Dinas 15 munud y Cyngor.
5. O ystyried diffyg mandad democrataidd y weinyddiaeth yn ei maniffesto yn 2022, ymrwymo i geisio cefnogaeth y cyhoedd ar gyfer ei gynllun y cytunwyd arno i gyflwyno cynllun codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd trwy refferendwm ledled y ddinas.
6. Cynnwys cyllid a gallu gweithredol Bws Caerdydd yn ei asesiadau effaith polisi.”

Cafodd y diwygiad cyntaf ei eilio’n ffurfiol gan y Cynghorydd Hopkins.

Derbyniwyd yr ail ddiwygiad i'r cynnig oddi wrth y Grŵp Llafur. Galwodd yr Arglwydd Faer ar y Cynghorydd Stubbs i gyflwyno yr ail ddiwygiad fel a ganlyn:

“Mae’r Cyngor yn nodi’r canlynol:

1. Mae Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau Llywodraeth Cymru, a gyflwynwyd i bontio'r bwlch rhwng incwm a gwariant gweithredwyr bysiau, i fod i ddod i ben ar 24 Gorffennaf 2023.
2. Nid yw cyfran Caerdydd o'r £46m o gyllid i helpu gwasanaethau bysiau am weddill y flwyddyn ariannol hon yn ddigonol i gynnal gwasanaethau presennol ar draws y ddinas, ac mae swyddogion y Cyngor wedi bod yn gweithio'n galed i ddyrannu adnoddau er mwyn caniatáu mynediad parhaus i'r rhwydwaith bysiau ar draws y ddinas gyfan.
4. Derbyniodd Bws Caerdydd, sy'n eiddo i Gyngor Caerdydd, £5.6m o'r Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau a £1.6m o’r Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau yn 2021/22 (y cyfrifon cyhoeddedig diweddaraf).

Mae'r Cyngor yn credu:

1. Mae gwasanaethau bysiau rheolaidd a dibynadwy yn nodwedd allweddol o brifddinas ac maent yn hanfodol i leihau'r defnydd o geir, allyriadau carbon a thagfeydd ffyrdd a byddant yn helpu canol y ddinas i ffynnu.
2. Mae gwasanaethau bysiau yn rhan allweddol o system drafnidiaeth gynaliadwy. Ar wahân i drenau sydd y tu hwnt i'n rheolaeth, bysiau yw'r unig ddull hygyrch, fforddiadwy a diogel o deithio sydd ar gael i **HOLL** drigolion Caerdydd.
3. Ers dadreoleiddio'r diwydiant bysiau yn yr 1980au, nid oes gan y Cyngor y pwerau i reoli, cynllunio na rheoli rhwydwaith bysiau'r ddinas

yn effeithlon.

4. Mae gwasanaethau bysiau yn hollbwysig wrth atal pobl a chymunedau, yn enwedig pobl hŷn, rhag cael eu hynysu oddi wrth wasanaethau hanfodol.
5. Mae lonydd beicio ar wahân hefyd yn chwarae rhan hollbwysig wrth alluogi teithiau cost isel, cynaliadwy ledled y ddinas, ac yn galluogi beicwyr newydd a llai hyderus i deithio'n ddiogel.

Rydym yn galw ar y Cabinet i:

1. O ystyried cyfyngiadau adnoddau, sicrhau bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i wasanaethau bysiau fel yr unig ddull cost isel a hygyrch o deithio o amgylch ein Dinas.
2. Parhau i ymgynghori â chwmnïau bysiau yng Nghaerdydd ynghylch effaith lonydd beicio newydd arfaethedig ar wasanaethau bysiau, fel rhan o ddull cytbwys o wella seilwaith trafnidiaeth y ddinas.
3. Parhau i lobïo Llywodraeth Cymru i gynnal a gwella'r lefelau presennol o gyllid bysiau nes bod model masnachfreinio i'w ddeddfu ar waith.
4. Parhau i gyflawni Strategaeth Drafnidiaeth y Cyngor sy'n cydnabod y byddai cynllun Codi Tâl ar Ddefnyddwyr Ffyrdd posibl yn darparu gwasanaethau bysiau amlach, mwy dibynadwy a mwy eang i bob rhan o'r ddinas, yn ogystal ag ar draws y ddinas-ranbarth. Mae'r Strategaeth yn canolbwyntio ar greu gwasanaethau trafnidiaeth hyfyw, cynhwysol, effeithlon ac effeithiol, sy'n hygyrch, yn fforddiadwy, *yn deg* ac yn ddiogel i'w holl ddinasyddion, gan gefnogi egwyddorion dinas 15 munud.
5. Amlinellu cyfres o fesurau blaenoriaeth i fysiau, fel coridorau clyfar, yn y Strategaeth Fysiau sydd ar ddod i wneud y ddinas mor addas i fysiau â phosibl.

Ar ben hynny, mae'r Cyngor yn penderfynu:

1. Diolch i a llongyfarch staff Bws Caerdydd am eu gwaith wrth drawsnewid y cwmni yn llwyddiannus yn ystod y blynyddoedd diwethaf.
2. Parhau i gefnogi a choleddu ein cwmni bysiau dan berchnogaeth bwrdeistrefol - un o'r ychydig rai sydd ar ôl yn y DU - a chondemnio unrhyw Gynghorydd sy'n tanseilio enw da'r cwmni yn fwriadol drwy rannu neu ddyfeisio sôn am ei statws ariannol.

Cafodd yr ail ddiwygiad ei eilio'n ffurfiol gan y Cynghorydd Humphries.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar y cynnig a'r diwygiadau.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Reid-Jones i ymateb i'r materion a godwyd yn ystod y drafodaeth.

Ymatebodd y Cynghorydd Reid-Jones i'r materion a godwyd a chadarnhaodd na dderbyniwyd y diwygiadau.

Galwodd yr Arglwydd Faer am bleidlais ar y diwygiad cyntaf fel y'i cynigiwyd gan y Cynghorydd Berman a'i eiliwyd gan y Cynghorydd Hopkins.

Cefnogi (11)
Y Cynghorwyr Berman, Carter, Gibson, Hopkins, Latif, Livesy, McEvoy, Naughton, Shimmin, Taylor a Waldron

Yn erbyn (55)
Y Cynghorwyr Saleh Ahmed, Ali, Ash-Edwards, Boes, Bowen-Thomson, Bradbury, Bridgeman, Brown-Reckless, Burke, Carr, Chowdhury, Cowan, Davies, De'Ath, Derbyshire, Driscoll, Ebrahim, Ferguson-Thorne, Greene, Gunter, Henshaw, Hinchey, Humphreys, Hunt, Keith Jones, Owen Jones, Joyce, Kaaba, Lancaster, Lewis, Littlechild, Mackie, McGarry, Melbourne, Merry, Michael, Moultrie, Owen, Palmer, Parry, Proctor, Reid-Jones, Robinson, Robson, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Thomas, Thorne, Weaver, Wild a Wong

Ni wnaeth unrhyw un ddal pleidlais yn ôl.

COLLWYD y bleidlais ar y diwygiad cyntaf.

Galwodd yr Arglwydd Faer am bleidlais ar y ail ddiwygiad fel y'i cynigiwyd gan y Cynghorydd Stubbs a'i eiliwyd gan y Cynghorydd Humphreys.

Cefnogi (44)
Y Cynghorwyr Saleh Ahmed, Ali, Ash-Edwards, Boes, Bowen-Thomson, Bradbury, Bridgeman, Burke, Carr, Chowdhury, De'Ath, Derbyshire, Ebrahim, Ferguson-Thorne, Greene, Gunter, Henshaw, Hinchey, Humphreys, Hunt, Keith Jones, Owen Jones, Joyce, Kaaba, Lewis, Lister, Mackie, McEvoy, McGarry, Merry, Michael, Moultrie, Palmer, Proctor, Robinson, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Thomas, Thorne, Weaver, Wild a Wong

Yn erbyn (22)
Y Cynghorwyr Berman, Brown-Reckless, Carter, Cowan, Davies, Driscoll, Gibson, Hopkins, Lancaster, Latif, Littlechild, Livesy, Melbourne, Naughton, Owen, Parry, Reid-Jones, Robson, Shimmin, Taylor, Waldron a Williams

Ni wnaeth unrhyw un ddal pleidlais yn ôl.

DERBYNIWYD y bleidlais ar y ail ddiwygiad.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Stubbs fel cynigydd yr ail ddiwygiad i ymateb cyn i'r bleidlais gael ei chynnal ar y Cynnig o Sylwedd fel y'i diwygiwyd.

Ymatebodd y Cynghorydd Stubbs.

Galwodd yr Arglwydd Faer am bleidlais ar y Cynnig o Sylwedd fel y'i diwygiwyd gan y Cynghorydd Stubbs a'i eiliwyd gan y Cynghorydd Humphreys.

Cefnogi (44)
Y Cynghorwyr Saleh Ahmed, Ali, Ash-Edwards, Boes, Bowen-Thomson, Bradbury, Bridgeman, Burke, Carr, Chowdhury, De'Ath, Derbyshire, Ebrahim, Ferguson-Thorne, Greene, Gunter, Henshaw, Hinchey, Humphreys, Hunt, Keith Jones, Owen Jones, Joyce, Kaaba, Lewis, Lister, Mackie, McGarry, Merry, Michael, Moultrie,

Palmer, Parry, Proctor, Robinson, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Thomas, Thorne, Weaver, Wild a Wong

Yn erbyn (21)
Y Cynghorwyr Berman, Brown-Reckless, Carter, Cowan, Davies, Driscoll, Gibson, Hopkins, Lancaster, Latif, Littlechild, Livesy, Melbourne, Naughton, Owen, Reid-Jones, Robson, Shimmin, Taylor, Waldron a Williams

Dal pleidlais yn ôl (1):
Y Cynghorydd McEvoy

DERBYNIWYD y bleidlais ar y Cynnig o Sylwedd.

49 : HYSBYSIAD O GYNNIG - 3

Nododd yr Arglwydd Faer fod Hysbysiad o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Berman ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Carter wedi dod i law i'w ystyried.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Berman i gyflwyno'r cynnig fel a ganlyn:

"Mae'r Cyngor yn nodi'r canlynol:

1. Nid yw llawer o drigolion a chymunedau yng Nghaerdydd ar hyn o bryd yn teimlo bod yr awdurdod lleol yn ymgynghori â nhw'n briodol cyn gwneud penderfyniadau allweddol sy'n effeithio ar eu bywydau ac ar y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio ac yn dibynnu arnynt.
2. Yn aml, ni hysbysebir ymgynghoriadau'r Cyngor yn effeithiol i drigolion a allai gael eu heffeithio gan benderfyniadau, yn rhannol oherwydd gorddibyniaeth ar ymgyngoriadau'n cael eu hyrwyddo ar lwyfannau digidol yn bennaf.

Mae'r Cyngor yn credu:

1. Er na ddylid ystyried ymgynghori yn syml fel feto, mae defnydd da a phriodol o ymgynghori yn arwain at wneud penderfyniadau gwell.
2. Er mwyn i ymgynghori gael ei ystyried yn ystyrlon, dylid ei wneud cyn belled ag y bo modd cyn gwneud penderfyniadau, gan gynnwys pan wneir penderfyniadau mewn egwyddor.
3. Dylid tybio y bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal cyn pob penderfyniad allweddol a fydd yn effeithio ar drigolion a chymunedau.

Felly, mae'r Cyngor hwn yn galw ar y Cabinet i roi'r egwyddorion a amlinellwyd uchod ar waith yn gadarn ac i adolygu strategaeth cyfranogiad y Cyngor yn unol â hynny er mwyn rhoi mwy o hyder i drigolion Caerdydd y bydd eu barn yn cael ei hystyried pan fydd penderfyniadau'r Cyngor yn cael eu gwneud yn y dyfodol."

Derbyniwyd diwygiad i'r cynnig oddi wrth y Grŵp Llafur. Galwodd yr Arglwydd Faer ar y Cynghorydd Michael i gyflwyno'r diwygiad fel a ganlyn:

"Mae'r Cyngor yn nodi'r canlynol:

1. Mae cyrhaeddiad ac ehangder ymgynghori ac ymgysylltu Cyngor Caerdydd yn fwy nag erioed o'r blaen. Mae'r dystiolaeth ar gyfer hyn yn cynnwys:

   a) Y 62,000 o ymatebion i ymgynghoriadau ac arolygon yn 2021/22 - cynnydd o 40% ers 2019.
   b) Y bron i 4,000 o ymatebion i Arolwg Holi Caerdydd 2022, a'r bron i 6,000 o ymatebion i Gynigion Cyllideb 2023/24, o gymharu â'r ymgynghoriad ar Gyllideb 2012 yn cynnwys un arolwg electronig a gafodd 237 o ymatebion yn unig.
   c) Adroddodd Panel Dinasyddion, a sefydlwyd i gefnogi ymgysylltu, gyda dros 5,000 o aelodau gweithredol, fod 63% o'r aelodau'n credu bod ymgysylltu yn Dda Iawn / Da, o gymharu â 3% yn nodi profiad gwael / gwael iawn.

Mae'r Cyngor yn nodi ymhellach er gwaethaf yr uchod, bod lle pellach i wella, o ystyried bod rhai rhannau o'r ddinas, a rhai demograffeg yn cael eu tangynrychioli mewn ymatebion i ymgynghoriadau. Mae Strategaeth Cyfranogiad newydd y Cyngor yn ceisio gwella hyn. O ystyried hyn, mae'r Cyngor hwn yn credu:

1. Nid refferenda yw ymgynghoriadau, ac etholir Cynghorwyr gan y bobl i wneud penderfyniadau er budd gorau'r ddinas gyfan. Weithiau, gall budd gorau'r Ddinas fod yn groes i ddymuniadau grwpiau diddordeb arbennig gyda ffocws cul.
2. Heb os, mae defnydd da a phriodol o ymgynghori yn helpu i lywio gwell penderfyniadau.
3. Er mwyn i ymgynghori gael ei ystyried yn ystyrlon, dylid ei gynnal cyn belled ag y bo modd ar gam ffurfiannol cynigion tra hefyd yn cydnabod dilysrwydd mandad gwleidyddol ar gyfer cyflawni polisïau, a chyfyngiadau cyllideb.
4. Cynhelir ymgynghori'n unol â'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru, Egwyddorion Gunning a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Felly, mae'r Cyngor hwn yn galw ar y Cabinet i roi'r egwyddorion a amlinellwyd uchod ar waith yn gadarn, ac yn galw ar bob Cynghorydd i annog ymatebion i'r Strategaeth Cyfranogiad yr ymgynghorir arni ar hyn o bryd."

Cafodd y diwygiad ei eilio'n ffurfiol gan y Cynghorydd Gunter.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar y cynnig a'r diwygiad.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Berman i ymateb i'r materion a godwyd yn ystod y drafodaeth.

Ymatebodd y Cynghorydd Berman i'r materion a godwyd a chadarnhaodd na dderbyniwyd y diwygiad.

Galwodd yr Arglwydd Faer am bleidlais ar y diwygiad fel y'i cynigiwyd gan y Cynghorydd Michael a'i eiliwyd gan y Cynghorydd Gunter.

Cefnogi (42)

Y Cynghorwyr Saleh Ahmed, Ali, Ash-Edwards, Boes, Bowen-Thomson, Bradbury, Bridgeman, Burke, Carr, Chowdhury, Cunnah, Ebrahim, Ferguson-Thorne, Greene, Gunter, Henshaw, Hinchey, Humphreys, Hunt, Keith Jones, Owen Jones, Joyce, Kaaba, Lewis, Lister, Mackie, McGarry, Merry, Michael, Moultrie, Palmer, Proctor, Robinson, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Thomas, Thorne, Weaver, Wild a Wong

Yn erbyn (21)
Y Cynghorwyr Berman, Brown-Reckless, Carter, Cowan, Davies, Driscoll, Gibson, Hopkins, Lancaster, Latif, Littlechild, Livesy, Melbourne, Naughton, Owen, Reid-Jones, Robson, Shimmin, Taylor, Waldron a Williams

Ni wnaeth unrhyw un ddal pleidlais yn ôl.

DERBYNIWYD y bleidlais ar y Diwygiad.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Michael fel cynigydd y diwygiad i ymateb cyn i'r bleidlais gael ei chynnal ar y Cynnig o Sylwedd fel y'i diwygiwyd.

Ymatebodd y Cynghorydd Michael.

Galwodd yr Arglwydd Faer am bleidlais ar y Cynnig o Sylwedd fel y'i diwygiwyd gan y Cynghorydd Michael a'i eiliwyd gan y Cynghorydd Gunter.

Cefnogi (44)
Y Cynghorwyr Saleh Ahmed, Ali, Ash-Edwards, Boes, Bowen-Thomson, Bradbury, Bridgeman, Burke, Carr, Chowdhury, Cunnah, De'Ath, Ebrahim, Ferguson-Thorne, Greene, Gunter, Henshaw, Hinchey, Humphreys, Hunt, Keith Jones, Owen Jones, Joyce, Kaaba, Lewis, Lister, Mackie, McGarry, Merry, Michael, Moultrie, Palmer, Parry, Proctor, Robinson, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Thomas, Thorne, Weaver, Wild a Wong

Yn erbyn (13)
Y Cynghorwyr Brown-Reckless, Cowan, Davies, Driscoll, Gibson, Lancaster, Littlechild, Livesy, Melbourne, Owen, Reid-Jones, Robson a Williams

Dal pleidlais yn ôl (8):
Y Cynghorwyr Berman, Carter, Hopkins, Latif, Naughton, Shimmin, Taylor a Waldron

DERBYNIWYD y bleidlais ar y Cynnig o Sylwedd fel y'i diwygiwyd.

50 : CWESTIYNAU AR LAFAR

*Y Cynghorydd Williams i'r Cynghorydd Dan' De'Ath fel Cadeirydd cyfarfod y Cabinet (fel Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Parc Maendy)*
A all yr Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau a'r cyhoedd am gais y Cyngor i'r Comisiwn Elusennau mewn perthynas â gwaredu tir yn Ymddiriedolaeth Parc Maendy a chadarnhau a yw'r Cyngor wedi ystyried caffael tir yn Nhŷ'r Cwmnïau fel dewis arall i'r bwriad o waredu tir yn Ymddiriedolaeth Parc Maendy?

*Ateb – Y Cynghorydd De'Ath*
O ran eich cwestiwn, gallaf ddweud y canlynol wrthych. Gofynnodd y Comisiwn Elusennau am fwy o wybodaeth gan y Cyngor Sir, yr ydym wedi'i rhoi iddo, a gallaf

gadarnhau bod y Cyngor Sir wedi mynegi diddordeb yn y tir yr ydych wedi cyfeirio ato.

*Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Williams*
Bydd trigolion yn y cyffiniau ac ar draws Caerdydd yn chwilfrydig bod y Cyngor wedi mynegi diddordeb mewn tir yn Nhŷ'r Cwmnïau, a hoffwn i'r Aelod Cabinet roi mwy o fanylion am faint o ddiddordeb sydd gan y Cyngor. A yw hwn yn gais difrifol i gaffael tir yn Nhŷ'r Cwmnïau, a fydd, gobeithio, yn negyddu'r angen i fwrw ymlaen â gwaredu tir yn Ymddiriedolaeth Parc Maendy, fel y gall y gymuned fwynhau'r defnydd o'r tir hwnnw fel y bwriadwyd bob amser pan gafodd ei roi i ymddiriedolaeth yr holl flynyddoedd hynny yn ôl?

*Ateb – Y Cynghorydd De'Ath*
Ar hyn o bryd mae'n broses eithaf cymhleth gyda'r meddiannydd presennol yn gadael y safle, a fydd yn cymryd amser. Fy nealltwriaeth i yw bod sgyrsiau'n digwydd, ond ar hyn o bryd nid yw'r union delerau wedi cael eu trafod. Rwy'n siŵr y bydd fy nghyd-Aelod, y Cynghorydd Goodway, yn gallu diweddaru'r Siambr maes o law.

*Y Cynghorydd Berman i'r Cynghorydd De'Ath*
A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch a fydd National Express yn dychwelyd ei wasanaethau i ddefnyddio Gorsaf Fysiau Canol y Ddinas pan fydd gorsaf fysiau newydd yng Nghaerdydd yn agor yn y pen draw, fel y gellir integreiddio gwasanaethau bysiau cenedlaethol unwaith eto â gwasanaethau rheilffordd cenedlaethol a gwasanaethau bysiau lleol?

*Ateb – Y Cynghorydd De'Ath*
Fel y gwyddoch, mae Trafnidiaeth Cymru yn gweithredu'r gyfnewidfa newydd ac nid ydynt wedi cwblhau'n llawn yr hyn y bydd bysiau'n ei ddefnyddio hyd yma, ond rydym yn deall na fydd National Express yn defnyddio'r gyfnewidfa newydd. Mae Trafnidiaeth Cymru yn cymryd rhan mewn darn o waith i geisio penderfynu ble yn union sydd orau iddynt fynd, rydym wedi bod yn rhan o'r trafodaethau hynny. Rydym am i National Express gyfnewid gyda'r orsaf fysiau a'r orsaf drenau a byddwn yn diweddaru pobl pan fyddwn yn gwybod sut mae’r trafodaethau hynny wedi mynd.

*Cwestiwn Atodol – y Cynghorydd Berman*
Os na fyddwn yn ailintegreiddio'r gwasanaethau hyn, rwy'n credu y bydd hynny'n drychineb i'r ddinas hon, a thybed a allwch chi roi gwybod i ni a oes unrhyw wirionedd yn y si mai un o'r rhesymau pam nad yw National Express eisiau dychwelyd eu gwasanaethau i'r orsaf fysiau newydd yw oherwydd na fydd y cilfachau bysiau newydd yn ddigon uchel i rai o'u coetsis fynd i mewn iddynt?

*Ateb – Y Cynghorydd De'Ath*
Nid wyf yn ymwybodol o'r si penodol yr ydych yn cyfeirio ato. Rydym yn cael trafodaethau byw gyda National Express ar hyn o bryd, ac mae rhai o'r posibiliadau rydym wedi'u trafod yn eithaf cyffrous ac rwy'n siŵr y byddech yn cymeradwyo ond byddwn yn gallu dweud mwy ymhen ychydig fisoedd.

*Y Cynghorydd Livesy i'r Cynghorydd De'Ath*
A fydd y Cyngor nawr ystyried cyflwyno cysylltiadau teithio llesol rhwng Sain Ffagan a'r Tyllgoed a rhwng y pentref a Heol Orllewinol y Bont-faen, nawr bod trigolion, staff, defnyddwyr agored i niwed neu anabl, a hyd yn oed ymwelwyr rhyngwladol, wedi colli

eu cysylltiad ag Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, rwy'n golygu gwasanaeth bws 32.

*Ateb – Y Cynghorydd De'Ath*
Rydym yn amlwg am i bob cymuned fod â seilwaith teithio llesol gwych. Mae'r hyn sydd wedi'i gynllunio i'w weld ar fap y Rhwydwaith Teithio Llesol. Mae cynlluniau ar gyfer Llwybr Elái rhwng Sain Ffagan a Heol y Bont-faen ar y gweill. Rwy'n deall y gallai rhywfaint o arian 106 yn y ward gael ei ddefnyddio at rai o'r dibenion hynny pe byddech chi a'ch cydweithwyr yn y ward yn dymuno. Ond rwy'n credu mai'r hyn sydd ei angen arnom mewn gwirionedd yw bws sy'n stopio yn Sain Ffagan. Mae gwasanaeth 320 Adventure Travel sy'n mynd o ganol y ddinas i Sain Ffagan, dolen fawr o amgylch y Fro ac yn ôl i'r dref, a gwn eu bod yn awyddus iawn i stopio wrth safle Sain Ffagan ac rydym yn hwyluso sgyrsiau rhwng yr amgueddfa ac Adventure Travel. Fy nealltwriaeth i, oni bai nad yw'r amgueddfa am iddynt stopio ar ei safle, yw y dylai hynny ddigwydd, a chredaf mai dyna'r hyn mae pobl ei eisiau mewn gwirionedd.

*Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Livesy*
Un o'r prif gwynion a gawn am Lwybr Elái ar hyn o bryd yw ei fod yn hollol fwdlyd, yn anaddas ar gyfer beicwyr sy'n cymudo er enghraifft, ac mae'r palmentydd ar Heol Caerdydd rhwng Sain Ffagan a'r Tyllgoed yn chwalu neu mae'r gordyfiant yn atal pobl rhag cerdded arnynt, ac rydym yn cael cwynion cyson am hynny. Felly roeddwn am gael mwy o wybodaeth am y pethau hynny: llwybrau beicio, palmentydd newydd ar Heol Caerdydd.

*Ateb – Y Cynghorydd De'Ath*
Fel rwyf wedi dweud, rwy'n deall bod swm o 106 yn eich ward; os hoffech iddo gael ei wario ar y math hwnnw o seilwaith, gallwn yn sicr gwrdd â chi a gweld beth y gallwn ei wneud.

-
*Y Cynghorydd Davies i'r Cynghorydd Thomas, ar ran y Cynghorydd Goodway*

-

Sut mae'r Cyngor yn ymgysylltu'n gadarnhaol â rhanddeiliaid lleol, yn enwedig cynghorau cymuned, wrth gefnogi strydoedd mawr y tu allan i ganol y ddinas?

*Ateb – Y Cynghorydd Thomas*
Mae tîm Adfywio'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid lleol wrth ymgymryd â gweithgarwch adfywio mewn canolfannau lleol ac ardal, gan sicrhau yn benodol bod yr holl randdeiliaid perthnasol yn cael eu nodi ar ddechrau'r broses, a fyddai'n cynnwys unrhyw gynghorau cymuned, ac yna bod strategaeth ymgysylltu yn cael ei llunio i sicrhau bod ymgysylltu ystyrlon yn digwydd. Nod hyn yw sicrhau bod barn yr holl randdeiliaid yn cael ei hystyried wrth ddatblygu unrhyw gynigion. Mae nodi materion a blaenoriaethau ar gyfer canolfannau ardal lleol wrth wraidd gwelliannau ac yn naturiol mae'n broses y mae angen iddi gynnwys y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, a bydd y gwaith hwn yn cynnwys mewnbwn uniongyrchol gan y bobl sy'n cynrychioli'r cymunedau, gan gynnwys Cynghorwyr, wrth gwrs, yn ogystal â phobl sy'n byw, yn gweithio yn yr ardal ac yn ymweld â hi, i lywio cynigion adfywio tryloyw a chadarn ar gyfer yr ardal. Mae ein gwaith ar ganolfannau siopa ardal yn dilyn dull sy'n seiliedig ar ardaloedd â blaenoriaeth ac mae nifer o gynlluniau adfywio canolfannau siopa lleol hefyd yn cael eu dylunio a'u cyflawni drwy raglen Strategaeth Adfywio Cymdogaethau a arweinir gan aelodau'r Cyngor, ac os caiff cynlluniau eu

cynllunio mewn ardaloedd sydd â chynghorau cymuned, bydd ein prosesau yn sicrhau yr ymgynghorir yn uniongyrchol â’r cynghorau hynny drwy gydol y cynllun.

*Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Davies*
Rwy'n falch bod y Cabinet yn dymuno ymgysylltu'n gadarnhaol â chynghorau cymuned, wedi’r cyfan, mae pob Cynghorydd Sir fel ni, sy'n cwmpasu'r un wardiau, yn gwybod pa mor werthfawr ydynt yn eu rolau fel arweinwyr cymunedol. Gofynnaf y cwestiwn oherwydd mae llawer o rwystredigaeth yng Nghyngor Cymuned Radur a Phentre-poeth wedi'r newyddion diweddar nad yw'r adnodd ar gael yng Nghyngor Caerdydd, i gefnogi ailddatblygu Stryd yr Orsaf, y ganolfan fasnachol yn y ward, yr ydym am ei gweld yn ffynnu. Mae hyn wedi bod yn siomedig iawn gan i'r Arweinydd, a ddaeth i ymweld â ni fis Hydref diwethaf, ddweud mai dyma'r llwybr y dylai'r Cyngor Cymuned ei gymryd, ac y byddai'n gefnogol i fenter o'r fath. Yn wir, mae Cadeirydd Cyngor Cymuned Radur a Phentre-poeth, Tyrone Davis, wedi ysgrifennu atoch yn ddiweddar ynglŷn â'r pwynt hwn. Felly, gofynnaf a fydd yr Arweinydd yn defnyddio ei awdurdod i sicrhau bod swyddogion yn barod i helpu fy Nghyngor Cymuned mewn ffordd ystyrlon gyda'r uchelgais penodol hwn?

*Ateb – Y Cynghorydd Thomas*
Gallaf ddeall y rhwystredigaeth. Rwy'n gobeithio bod y Cyngor yn gwerthfawrogi fy awydd i ymgysylltu ag ef, dyna'n union pam yr es i i gyfarfod ag ef. Yr hyn sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ers i mi fynd yno yw’r dirwasgiad o ganlyniad i arweinyddiaeth Liz Truss a'r effaith a gafodd hynny ar gyllidebau ac ar chwyddiant yn benodol, sydd wedi cyfyngu ar faint y gellir gwario’r arian sydd gan y Cyngor arno. Rwy'n awyddus i weld gwelliannau'n cael eu gwneud i Stryd yr Orsaf fel y sonioch, ac rwy'n falch o glywed dymuniad y Cyngor Cymuned. Mae angen i ni fod yn onest ac mae angen i ni gydnabod nad oes gan y Cyngor yr adnoddau i wneud popeth y gall ac, fel y dywedais yn fy ymateb blaenorol, mae angen i ni flaenoriaethu'n bwrpasol iawn o fewn yr economi sydd o'n blaenau. Felly beth rydyn ni'n gobeithio gweld nawr, gan weithio gyda phartneriaid eraill, er enghraifft Trafnidiaeth Cymru, yw y gall sgwrs ddigwydd, gyda'r holl ddatblygiadau sy'n digwydd yn Radur Rwy'n awyddus iawn i gefnogi twf yn y boblogaeth a nifer y tai. A oes ffyrdd y gallwn ddefnyddio rhan o'r enillion cynllunio i gefnogi'r prosiect? Felly’n mynd yn ôl at y cyfyngiadau ariannol sy'n ein hwynebu, ond hefyd yr awydd i weithio'n wahanol gyda'r Cyngor Cymuned i wneud gwahaniaeth. Diolch.

*Y Cynghorydd Shimmin i'r Cynghorydd De'Ath*
Er bod y Cyngor yn ceisio ac yn hyrwyddo dulliau trafnidiaeth amgen i geir personol, pam na wnaeth flaenoriaethu camu i’r adwy i gefnogi cadw gwasanaethau 51/53 Bws Caerdydd sy'n cysylltu rhannau helaeth o Lanedern, Pen-y-lan a Chyncoed â chanolfannau siopa a threfi lleol, gan adael rhai heb ddewis arall cyfleus i'w ceir personol?

*Ateb – Y Cynghorydd De'Ath*
Gynghorydd, mae'n amlwg fel rydym wedi drafod heno fod hwn wedi bod yn gyfnod anodd i Bws Caerdydd, maen nhw wedi lleihau 8 gwasanaeth yn y ddinas nad oeddent yn fasnachol hyfyw mwyach heb Gynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, fel Cyngor Sir rydym wedi camu i'r adwy a chefnogi gwasanaethau, sef y 101 a'r 102 sy'n cwmpasu'r rhan fwy o lwybrau bysiau 51 a 53, yn enwedig ardaloedd ym Mhen-y-lan, Llanedern, Pentwyn a Chyncoed, na fyddai ganddynt wasanaeth arall.

*Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Shimmin*
Nid yw'r gwasanaeth y sonioch amdano, er ei fod yn ddefnyddiol o ran cyrraedd yr ysbyty, yn disodli'r gwasanaeth a gollwyd, felly beth fyddech chi'n ei ddweud wrth drigolion Carisbrooke Way gyda phroblemau symudedd neu blant ifanc neu'n gyffredinol, sydd bellach yn gorfod cerdded gryn bellter i gael y bws i gyrraedd ardaloedd siopa Heol Wellfield neu Heol Albany, eu llyfrgell leol neu'r dref, a thrwy hynny ddileu gwasanaeth hanfodol ac annog defnydd personol o geir yn fwy na thebyg?

*Ateb – Y Cynghorydd De'Ath*
Er nad yw'n cwmpasu'r un llwybr yn union, mae'n cwmpasu'r rhan fwyaf o'r ardal yr oedd y gwasanaeth bws arall yn ei chwmpasu. Mae sybsideiddio bws yn dibynnu ar hyd y llwybr, gall gostio cymaint â £150,000, nid yw'n rhad i'w wneud, felly mae'r hyn rwy'n ei ddisgrifio yn gallu darparu rhywfaint o wasanaeth bws amgen i'r bobl hynny.

*Y Cynghorydd Livesy i'r Cynghorydd De'Ath*

Pa egni neu frwdfrydedd sydd gan y Cyngor wrth helpu i ddiogelu Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig sy'n cael eu bygwth neu eu dinistrio ar hyn o bryd gan fwy o hamdden, fel Coed y Garth, neu sydd ar y rhestr ymgeiswyr ar gyfer datblygu ar y gorwel, fel Tŷ Du Moor?

*Ateb – Y Cynghorydd De'Ath*
Rydym yn un o'r gweinyddiaethau mwyaf brwdfrydig ac egnïol yn y DU, rwy’n siŵr y byddwch yn cytuno mai egni a brwdfrydedd yw ein harwyddeiriau. Rydym wedi cyhoeddi argyfwng natur. Rydym yn llwyr eisiau i'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) ymateb i'r her honno. Bydd rhan o'r fframwaith hwnnw yr ydym am ei gynnwys yn y CDLIN drwy'r Polisi Strategol SP19 yn ceisio datblygu cynlluniau a strategaethau yn y cynllun i ddiogelu asedau seilwaith gwyrdd, gan gynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Cam nesaf y cynllun, y cam adneuo, fydd yr asesiadau a’r mesurau seilwaith gwyrdd i ddiogelu a gwella seilwaith gwyrdd a sicrhau bod materion amrywiol rydych wedi'u codi yn cael eu cynnwys. O ran Coed y Garth sydd wedi'i ddynodi'n Ardal Cadwraeth Arbennig Ewropeaidd, rydym yn cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a fydd yn edrych yn benodol ar effaith mwy o hamdden ar y coetiroedd a bydd ei ganfyddiadau'n cael eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) terfynol.

*Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Livesy*
Rydych wedi ateb rhai o fy nghwestiynau atodol, felly tybed a allwn ni edrych i gael cyllid ychwanegol gan ddatblygwyr ar gyfer cynnal a chadw Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a phob math ohonyn nhw?

*Ateb – Y Cynghorydd De'Ath*
Yn amlwg, rydym am wneud y mwyaf o'r cyfraniad y gallwn ei gael gan ddatblygwyr, boed hynny ar gyfer tai fforddiadwy neu beth bynnag ydyw. Rwy'n gwybod bod y mater penodol hwn yn bwysig iawn i chi, mae gennym eich mewnbwn i'r CDLl. Nid yw'n un Llafur, mae i ni fel dinas; felly os hoffech chi gwrdd a mynd trwy'r peth, hoffem glywed beth yw eich barn chi.

*Y Cynghorydd Lancaster i'r Cynghorydd Wild*

A fyddech cystal â rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am yr hyn y mae'r Adran Wastraff yn ei wneud i glirio'r ôl-groniad o gasgliadau gwastraff a gollwyd o ganlyniad i'r gweithredu diwydiannol parhaus?

*Ateb – Y Cynghorydd Wild*
Yn anffodus oherwydd gweithredu diwydiannol cafodd nifer o wasanaethau eu canslo, eu gohirio, yr wythnos diwethaf i sicrhau bod y casgliadau blaenoriaeth yn cael eu cynnal.

Yr wythnos hon mae'r staff wedi gweithio'n galed iawn, wedi clirio llawer o'r ôl-groniad gyda chasgliadau'n mynd yn dda iawn. Rydym dal ychydig yn aneglur o ran yr union effaith dros yr wythnosau nesaf ac oherwydd hynny byddwn yn cynnal amserlen debyg fel y gwnaethom y pythefnos blaenorol, ond hoffwn ddiolch i'r Aelodau ar draws y Siambr sydd wir wedi helpu i gyfleu'r negeseuon i drigolion. Mae peth ohono wedi bod ychydig yn funud olaf gan nad ydym wedi gwybod yn union beth sy'n digwydd o ddydd i ddydd ond rydym wedi cyfathrebu'n dda. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi helpu gyda hynny.

*Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Lancaster*
Un o'r hepgoriadau mwyaf yn y gweithredu diwydiannol hwn yw'r diffyg casgliadau biniau gwastraff gardd, gan fod mathau eraill o wastraff wedi cael blaenoriaeth, felly erbyn i'r gweithredu diwydiannol hwn ddod i ben, bydd biniau gwastraff gardd wedi cael eu colli am y rhan fwyaf o ddau fis, mae'n debyg. Rwy'n gwybod mewn blynyddoedd blaenorol eich bod wedi atal casgliadau gwastraff gardd dros y gaeaf. A fyddech chi nawr yn ymrwymo i gydnabod effaith y gweithredu diwydiannol ac ymrwymo i ymestyn casgliadau gwastraff gardd i'r gaeaf er mwyn helpu trigolion i glirio'r ôl-groniad o wastraff gardd?

*Ateb – Y Cynghorydd Wild*
Rydym yn mynd i ystyried hyn.

*Y Cynghorydd Taylor i'r Cynghorydd Merry*
Pa ystyriaeth a roddwyd i ddarparu prydau ysgol am ddim yn ystod y gwyliau ysgol cyfan neu ran ohonynt ar ôl i Lywodraeth Cymru dynnu cyllid yn ôl?

*Ateb – Y Cynghorydd Merry*
Gofynnom i swyddogion baratoi senario beth os, yn dilyn y newid mewn polisi cenedlaethol pan benderfynodd Llywodraeth Cymru dynnu'r cymorth yn ôl i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn ystod cyfnodau gwyliau. Er mwyn rhoi cymorth i'r disgyblion cymwys yn ysgolion Caerdydd, cyfrifodd swyddogion y byddai'n costio £345,480 yr wythnos i'r Cyngor, ac ar gyfer cyfnod gwyliau haf chwe wythnos eleni, byddai hyn wedi cyfateb i fwy na £2 filiwn. O ystyried sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor, nid oedd yn bosibl dod o hyd i'r lefel hon o gyllid ychwanegol, a byddai wedi cael effaith andwyol sylweddol ar ddarparu gwasanaethau eraill y Cyngor.

*Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Taylor*
Rwy'n gwerthfawrogi'r hinsawdd ariannol bresennol yn llwyr, ac yn amlwg mae hynny'n swm enfawr o arian i'r Cyngor ddod o hyd iddo. Mae'n bwysig cydbwyso hynny yn erbyn y golled neu'r newyn gwyliau a'r effaith bellach y mae hynny'n ei chael ar deuluoedd, ac felly rwy'n siŵr, ar draws y Siambr, ni fyddaf yn rhagweld trafodaethau yn y dyfodol, ond pe gellid dod o hyd i rywfaint neu'r cyfan o'r arian

hwnnw fel rhan o'r cyfnod cyllidebol parhaus, rwy'n siŵr y byddai llawer ohonom ar draws y Siambr yn cefnogi hynny wrth sicrhau nad yw plant yn parhau i golli allan a'n bod yn gallu cefnogi'r teuluoedd hynny sydd ei angen fwyaf.

*Y Cynghorydd Livesy i'r Cynghorydd De'Ath*
Pa gamau adeiladol y gall y Cyngor eu cymryd i sicrhau bod gwasanaeth bws G1 trwblus Gwaelod y Garth, a ddarperir gan Adventure Travel, yn gwella o ran cysondeb a dibynadwyedd?

*Ateb – Y Cynghorydd De'Ath*
Y brif weithred adeiladol a gymerodd y Cyngor, ynghyd ag Adventure Travel, oedd gwneud buddsoddiad sylweddol mewn cerbyd pwrpasol arbennig sy'n gallu llywio'i ffordd drwy'r pentref yn hawdd. Fy nealltwriaeth i yw bod materion yn codi oherwydd mae'n ofynnol i gerbyd gael ei wasanaethu bob 35 diwrnod, a phan fydd oddi ar y ffordd mae'r cwmni'n defnyddio cerbyd mwy lle mae'r problemau a oedd yn digwydd yn flaenorol yn amlwg yn dod yn ôl oherwydd ei faint. Nid wyf yn siŵr sut y gallwn ddatrys hynny. Nid wyf yn siŵr a oes unrhyw ffordd iddo gael ei wasanaethu'n llai rheolaidd, rwy'n credu y gallwn edrych ar y drwydded honno. Ond mae'r cerbyd hwnnw rydym wedi cyfrannu’n ariannol ato yn tueddu i weithio'n dda iawn pan fydd yn gweithredu sef y rhan fwyaf o'r amser.

*Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Livesy*
Mae’r pentrefwyr yn dweud wrthym yn ystod y pythefnos neu dair wythnos diwethaf nad yw hynny o reidrwydd oherwydd newid bws. Nid yw'r bws yn troi i fyny ac yn amlwg nid ydynt yn gwybod dim am hynny, neu bydd yn sydyn yn newid llwybr ac yn mynd i ddepo ac yn cymryd 20 neu 30 munud ychwanegol i gwblhau'r gwasanaeth. Felly, tybed pa wersi y gallwn eu dysgu mewn gwirionedd pan fyddwn yn ystyried darparwyr bysiau preifat ar gyfer rhai o'r bysiau newydd yr ydym yn chwilio amdanynt yn y toriadau diweddar. Mewn gwirionedd, roeddem yn aros am newyddion am estyniad pellach i'r Eglwys Newydd ar y G1 hefyd, na ddaethant erioed.

*Ateb – Y Cynghorydd De'Ath*
Yn sicr, gallwn siarad â'r cwmni i weld beth yw ei broblemau, ar wastraff, ond nid ydym yn cael dweud wrtho beth i'w wneud; Rwy'n ceisio gweithio'n adeiladol gydag ef. Gyda rhai o'r gwasanaethau hyn, pan fyddwch yn eu cyhoeddi i’w tendro, mae’n fater o bwy bynnag sy'n dod ac yn cymryd y contract. Rwy'n gwerthfawrogi rhai o'r pryderon sydd gan eich trigolion. Cawsom daith gerdded dda trwy eich ward ychydig fisoedd yn ôl. Os oes unrhyw faterion eraill, fel llinellau ac arwyddion a bolardiau y gallwn geisio eu defnyddio i geisio atal ceir rhag rhwystro'r llwybr bysiau a'i wneud ychydig yn haws, yn ogystal â cheisio deall ychydig yn well pa broblemau y mae'r cwmnïau'n eu profi. Felly os nad y cerbyd mwy sy'n cael ei ddefnyddio, hoffem gael gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd, felly gadewch i ni siarad â’r cwmni a byddwn yn cysylltu â chi.

*Y Cynghorydd Livesy i'r Cynghorydd De'Ath*
Bydd cyflwyno terfynau cyflymder 20mya diofyn ledled Caerdydd yn cael effaith ddinistriol ar dwf economaidd ac yn niweidio cynhyrchiant. O safbwynt y Cyngor, bydd y newidiadau hyn yn cael effaith andwyol ar wasanaethau Cyngor sy'n hanfodol o ran amser, fel pryd ar glud, gofalwyr sy'n ymweld â chartrefi cleientiaid gydag ymatebion botwm coch brys i drigolion hefyd yn cael eu gohirio. Mae'r rheiny'n bobl oedrannus ac agored i niwed sydd wedi dioddef cwympiadau sy’n aros yn llawer hirach am ymatebion gan weithwyr y Cyngor. Pa asesiad y mae'r Cyngor wedi'i

gynnal i asesu cost terfynau cyflymder 20mya diofyn ar fusnes y Cyngor, fel yr amser ychwanegol sydd ei angen i roi sylw i'r gwasanaethau hanfodol hyn o ran amser?

*Ateb – Y Cynghorydd De'Ath*
Rwy'n anghytuno'n sylfaenol â'r dystiolaeth ar gyfer yr honiad rydych newydd ei wneud. Mae ymchwil gan Lywodraeth Cymru yn dangos bod amseroedd teithio yn cael eu heffeithio'n fwy gan gyffyrdd a goleuadau yn hytrach na'r terfyn cyflymder, ac mae'n rhagweld na fydd yn gwneud unrhyw wahaniaeth penodol i amseroedd teithio yn y rhan fwyaf o achosion, ac yn yr achosion hynny lle mae'n gwneud hynny, mae'r gwahaniaeth yn 1 munud ychwanegol.

*Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Williams*
Bobl yng Nghaerdydd a ledled Cymru, edrychwch ar y tagfeydd yn ystod y dyddiau diwethaf yn unig, maent wedi gwaethygu'n ddirfawr. Roedd fy nghwestiwn ynghylch dinasyddion sy'n agored i niwed yn y ddinas hon sydd mewn perygl os ydynt wedi dioddef cwymp neu anaf, yr amser y mae'n mynd i gymryd ein swyddogion i gyrraedd y bobl hynny. Pryd ar Glud Y Cynghorydd De'Ath. Felly, beth ydych chi'n mynd i'w wneud am y peth a pha asesiad y mae'r Cyngor wedi'i gynnal, oherwydd mae swyddogion yn dweud wrthyf eu bod yn treulio llawer hirach yn mynd o gwmpas yn gwneud tasgau brys, sy'n hanfodol o ran amser. Mae hynny'n costio arian. Pa asesiad sydd wedi i'i gynnal?

*Ateb – Y Cynghorydd De'Ath*
Fel y dywedais, mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad yw'r rhan fwyaf o gerbydau wedi bod yn cyrraedd 30 milltir yr awr mewn gwirionedd. Ond, wyddoch chi, i fod yn deg â chi a'r hyn rydych wedi'i ddweud, mae'n bwynt pwysig, ac fel Cyngor bydd y Tîm Trafnidiaeth yn monitro'r hyn sy'n digwydd yn y ddinas ac os oes unrhyw faterion byddwn yn ceisio mynd i'r afael â nhw. Am y tro, yn seiliedig ar y dystiolaeth a luniwyd gan Lywodraeth Cymru, bydd yr effaith yn ddibwys.

*Y Cynghorydd Carter i'r Cynghorydd Burke*
Ar wahân i gyllid preifat, a yw'r Cyngor wedi ystyried unrhyw ffynonellau eraill o gyllid allanol i ailddatblygu Canolfan Hamdden Pentwyn?

*Ateb – Y Cynghorydd Burke*
Bydd y cyllid preifat drwy Rygbi Caerdydd yn talu tua hanner cyfanswm cost y buddsoddiad arfaethedig yng Nghanolfan Hamdden Pentwyn. Mae'r dyraniad cyfalaf yn fodel buddsoddi i arbed ac mae angen ei ad-dalu'n llawn. Felly, mae'r Cyngor yn ystyried amrywiaeth o gyfleoedd eraill i wneud iawn am y diffyg, gan gynnwys cynlluniau cyllid grant Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Bydd y Cyngor hefyd yn ystyried cyfraniadau tuag at gost y cae 3G gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru ac Undeb Rygbi Cymru. Mae cyfleoedd am gyfraniad gan GLL hefyd yn cael eu hystyried.

*Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Carter*
Mae'n ddiddorol eich bod wedi sôn am Lywodraeth y DU. Nodais ddydd Llun pan gawsom ni i gyd y datganiad i'r wasg gan y Cyngor yn dangos faint oedd wedi cael ei ariannu gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin, cronfeydd ffyniant bro fel y'i gelwir Lywodraeth y DU, oherwydd ni freuddwydiais erioed y byddai'n gymwys. A yw hwn yn faes yr ydym wedi ystyried chwilio am gyllid ganddo ar gyfer y prosiect hwn, ac os na, pam na fyddai'r prosiect hwn yn gymwys pan fo cyfleusterau hamdden eraill mewn gwahanol rannau o'r DU wedi'u hariannu gan gynlluniau tebyg?

*Ateb – Y Cynghorydd Burke*
Mae'n ddrwg gen i, dim ond hanner cyntaf eich cwestiwn wnes i ei glywed. Yr hyn fyddwn i'n ei ddweud yw ein bod yn edrych ar bob llwybr a bod unrhyw beth yn bosibl, diolch.

*Y Cynghorydd Berman i'r Cynghorydd De'Ath*
A yw'r weinyddiaeth o'r farn ei bod wedi rhoi mesurau diogelu digonol ar waith i ddiogelu ffasadau'r adeiladau sy'n ffurfio'r hen deras Fictoraidd yng Nghilgant Guildford?

*Ateb – Y Cynghorydd De'Ath*
Cyflwynwyd cais yn 2018 ar gyfer hysbysiad ymlaen llaw o ddymchwel 1-6 Cilgant Guildford. Mae dymchwel adeiladau o'r fath yn, ac roedd yn, ddatblygiad a ganiateir. Nid yw'r Cyngor byth yn rheoli'r dull o ddymchwel ac adfer y safle. Roedd y cais hwnnw cyn y cais i ailddatblygu'r safle a wnaed ym mis Gorffennaf 2021. Fel rhan o'r cais dymchwel hwnnw, mewn ymateb i wrthwynebiadau cyhoeddus sylweddol, diwygiwyd y cynlluniau i ganiatáu cadw ffasâd blaen yr hen adeiladau, gyda chynlluniau manwl yn cael eu darparu, a oedd yn nodi y byddai'r ffasadau a gedwir yn cael eu cynnal gan sgaffaldiau. Penderfynodd y Pwyllgor Cynllunio yn 2019 gymeradwyo'r gwaith dymchwel rhannol, yn amodol ar gadw'r ffasadau yn unol â'r manylion cymeradwy. O ystyried y rheolaeth gyfyngedig oedd ar gael ar y pryd gan y Cyngor ynghylch dymchwel yr adeiladau yn llawn, ystyriwyd bod y rheolaethau a osodwyd yn gofyn am gadw'r ffasadau yn ddigonol, gyda chymeradwyaeth ddilynol i ailddatblygu'r safle hefyd yn seiliedig ar gadw'r ffasadau. Penderfynodd datblygwyr symud i'r safle cyn ystyried eu cais cynllunio presennol i ddymchwel ac ailadeiladu'r ffasadau yn dilyn derbyn adroddiad strwythur, a gwnaed y gwaith dymchwel heb gysylltu â'r Cyngor. Gwnaeth hyn atal swyddogion rhag archwilio cyn dymchwel neu ystyried mantais dilyn unrhyw gamau i atal dymchwel cyn unrhyw archwiliad o'r fath. O fewn y cyd-destun hwn, ystyrir bod gan y Cyngor fesurau diogelu digonol ar waith ond yn y pen draw ni allai atal y dymchwel oherwydd cyflymder y camau a gymerwyd gan y datblygwr i ddymchwel y strwythur oedd yn weddill ar sail iechyd a diogelwch.

*Cwestiwn Atodol – y Cynghorydd Berman*
Yn gynharach heddiw yng nghyfarfod y Cabinet, byddwch yn cofio bod y Cabinet wedi penderfynu cyflwyno cyfarwyddyd Erthygl 4 ar Rompney Castle, rwy'n ei groesawu'n fawr, a fydd, gobeithio, yn helpu i achub adeilad arall sydd o werth i'w gymuned yn y ddinas. Felly, mae'n debyg mai fy nghwestiwn i yw, ac rwy'n gwerthfawrogi y gallai'r broses ar gyfer gwneud cais am gyfarwyddyd Erthygl 4 fod wedi bod yn wahanol ar y cam pan oeddem yn edrych ar y ceisiadau gwreiddiol ar gyfer Cilgant Guildford, ond a wnaeth y Cyngor ar y pwynt hwnnw ystyried yr opsiwn o gyfarwyddyd erthygl 4 ac edrych i weld a ellid bod wedi rhoi hynny ar waith?

*Ateb – Y Cynghorydd De'Ath*
Rwy'n credu bod fy nghyd-Aelod, y Cynghorydd Merry, wedi crynhoi ein teimladau am yr holl sefyllfa. Rydym yn flin iawn, yn rhwystredig iawn gyda'r ffordd mae pethau wedi mynd. Rwy'n credu ein bod wedi ystyried amrywiaeth o opsiynau. Mewn gwirionedd, yn y bôn, cafodd y peth ei daro i lawr mewn un diwrnod. Anfonom ein pobl allan yno i weld beth oedd yn digwydd, ond erbyn iddynt gyrraedd nid oedd llawer ar ôl. Rydym yn ystyried amrywiaeth o opsiynau gorfodi, gan gydnabod ei bod yn sefyllfa eithaf cymhleth. Mae'n mynd i'r Pwyllgor Cynllunio, eu cais presennol ym

mis Hydref, lle rydym yn trafod. Bydd camau gorfodi hefyd yn cael eu hystyried yn y cyfarfod hwnnw.

*Y Cynghorydd Berman i'r Cynghorydd Thomas*
Pam na chafodd partner datblygu arfaethedig y Cyngor ar gyfer cam nesaf y Pentref Chwaraeon Rhyngwladol ei enwi i ddechrau yn rhan angyfrinachol adroddiad y Cabinet o'r enw: "Pentref Chwaraeon Rhyngwladol – Achos Busnes Llawn" a ystyriwyd yng nghyfarfod y Cabinet ar 13 Gorffennaf?

*Ateb – Y Cynghorydd Thomas*
Rwy'n siŵr pan wnaethoch ysgrifennu'r cwestiwn hwn nad oeddech yn rhagweld mai hwn fyddai'r olaf o'r noson ar ôl chwe awr o gyfarfod y Cyngor. Gwnaethoch ofyn y cwestiwn hwn ym mis Gorffennaf a rhoddais ateb i chi yn ystod mis Awst. Hepgoriad syml, a gafodd ei gywiro drwy ddiwygiad.

*Cwestiwn Atodol – y Cynghorydd Berman*
Cafodd ei gywiro drwy ddiwygiad rwy'n credu ar ôl i mi godi'r mater yng Nghraffu, bod yr enw ar goll o ran gyhoeddus yr adroddiad, a thybed a oedd y ffaith iddo gael ei hepgor yn gysylltiedig â'r ffaith mai'r partner datblygu yw Ryan Land Leisure a oedd yn ymwneud â chyflwyno'r Pentref Chwaraeon yn ôl yng nghanol y 2000au, ond y daeth y Cyngor â'r berthynas honno i ben bryd hynny oherwydd nad oeddent yn gallu datblygu'r datblygiad, a nawr rydym yn mynd yn ôl i'r un cwmni hwnnw. Felly, tybed a allwch chi ein sicrhau nad dyna'r rheswm pam y cafodd yr enw ei hepgor?

*Ateb – Y Cynghorydd De'Ath*
Os oeddem am guddio'r enw, pam wnaethom roi'r enw mewn datganiad i'r wasg a ryddhawyd gennym cyn cyfarfod y Pwyllgor Craffu?

51 : MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

52 : BWS CAERDYDD - PENODI CYFARWYDDWR GWEITHREDOL

PENDERFYNWYD:

CYMERADWYODD y Cyngor benodiad Mr Craig Hampton-Stone yn Gyfarwyddwr Gweithredol Cardiff City Transport Services Limited (Bws Caerdydd)

53 : AELODAETH Y PWYLLGOR

PENDERFYNWYD:

CYTUNODD y Cyngor i benodi'r enwebiad i'r swydd wag ar y Pwyllgor, yn unol â dymuniadau'r Grŵp Pleidiau, fel y nodwyd yn Nhabl A ac ar y Daflen Diwygiadau.

54 : PENDERFYNIAD SWYDDOG BRYS - RHIF 16

PENDERFYNWYD:

NODODD y Cyngor benderfyniad swyddog brys i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 Uniongyrchol mewn perthynas â Rompney Castle, Heol Gwynllŵg, Tredelerch

(Atodiad A), ac i gael gwared ar hawliau datblygu a ganiateir a roddir dan Rannau 2 a 31 o'r Atodlen i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (fel y'i diwygiwyd ar gyfer Cymru) mewn perthynas â'r eiddo.

55 : PENODI LLYWODRAETHWYR AWDURDOD LLEOL I GYRFF LLYWODRAETHU YSGOLION

PENDERFYNWYD:

CYMERADWYODD y Cyngor benodiadau newydd ac ailbenodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol i gyrff llywodraethu ysgolion fel y nodwyd ar y Daflen Diwygiadau, pob un am dymor o 4 blynedd o ddyddiad y penodiad, yn unol ag argymhellion Panel Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol.

56 : CWESTIYNAU YSGRIFENEDIG

Yn unol â Rheol 17 (f) Gweithdrefn y Cyngor, mae'r Cwestiynau Ysgrifenedig a dderbyniwyd i'w hystyried, ynghyd â'r ymatebion iddynt, wedi'u hatodi i'r cofnodion.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.30 am